

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

26 – 2003



**CYMDEITHAS
ALAWON GWERIN
CYMRU**

**THE WELSH
FOLK-SONG
SOCIETY**



Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
Journal of the Welsh Folk-Song Society

“Gwaith prydidd da’i awenydd...”: Cerddi gwasael a phenillion telyn Lewis Morris Mari Elin Jones	3
D. Emlyn Evans ac alawon ei wlad Delyth Morgans	22
Dyddiadur y Plygain Rhiannon Ifans	40
‘A’r byd i gyd yn bapur ... ’ Rhan 2: Topos yr Anhraethadwy E. Wyn James	46
‘Cainc Dafydd Broffwyd’: cyfeiriad cynnar? Rhiannon Ifans	58
Teyrnged i Huw Williams Meredydd Evans	74
Linda Healy: Ôl ei droed	79

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw’r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na’r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Golygydd: Rhiannon Ifans

Argraffu: Gwasg Morgannwg, Castell-nedd

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol: £6.00
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £8.00
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £2.00
(Student membership)

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-Môr,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

 (01970) 610160

Llun y clawr: Linda Healy, un o feirniaid yr alaw werin yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod 2003, ac a fagwyd ym mro'r plygeiniau.

Llun: Gerallt Llywelyn

“GWAITH PRYDYDD DA’I AWENYDD ...”: CERDDI GWASael A PHENILLION TELYN

LEWIS MORRIS¹

Mari Elin Jones

Un o wŷr oes oleuedig y ddeunawfed ganrif oedd Lewis Morris; ysgolhaig a charwr llên a gŵr a gofleidiodd ddysg a gwybodaeth, ‘philomath’ brwdfrydig a deallus a fanteisiodd ar ei ddawn fel bardd ac ar ei allu fel ymchwilydd trylwyr. Gweithiodd yn ddiflino o gyfnod cynnar iawn i feithrin diwylliant, llenyddiaeth a thraddodiadau Môn, bro ei febyd, cyn troi ei olygon at orwelion ehangach Cymru. Fe’i trwythwyd yn arferion gwerinol ei filltir sgŵar a gosododd hyfforddiant y cyfnod cynnar ym Môn seiliau cadarn i’w yrfa fel bardd. Ymhell cyn iddo ddechrau ‘ymrwbio yn y mawrion’, yr oedd Lewis Morris yn dysgu wrth draed y beirdd gwlad ac yn cyfansoddi cerddi gwasael a phenillion telyn gyda’r gorau. Agwedd annisgwyl felly ar waith arweinydd uchel-ael Cylch y Morrisiaid a drafodir yma, gan sylwi ar rai o’r cerddi gwasael a phenillion telyn a gyfrannodd at gyfoeth canu gwerinol y ddeunawfed ganrif.



Mari Elin Jones

Nid gormodiaith yw honni mai Lewis Morris ydoedd prif ysgogydd adfywiad llenyddol canol y ddeunawfed ganrif, a rhaid nodi y’i hystyriai ei hun yn hyrwyddwr dysg Gymraeg mewn cyfnod tyngedfennol yn ei hanes. Coleddai syniadau pendant ynglŷn â’r modd yr hoffai weld datblygiad mewn meysydd astudiaeth amrywiol. Amlygir hyn gan y modd yr hoffai ymhel â hanes, llenyddiaeth ac iaith yn ogystal â’r gwyddorau.² Cyfrannodd at y traddodiad yr ymhyfrydai ynddo trwy gyfrwng ei waith creadigol a hyrwyddodd ei syniadau llenyddol er mwyn

hybu a chyfoethogi'r diwylliant Cymreig. Un o'r elfennau pwysicaf yng ngwaith Lewis ydoedd ei awydd mawr i boblogeiddio llenyddiaeth, nid yn unig ymysg y Cymry Cymraeg ond hefyd ymysg bonheddwyr Seisnig yng Nghymru a haneswyr Lloegr. Y mae'r llythyron canmoliaethus yn mawrygu hanes a thraddodiadau hynafol Cymru a ysgrifennodd at Samuel Pegge a Thomas Carte yn nodedig am eu hymgais i godi statws y wlad a'i phobl ymysg y Saeson. Y mae rhai o'i sylwadau yn gyfeiliornus ond yr oedd ei fwriad yn



*Lewis Morris, trwy ganiatâd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

ddidwyll iawn. Megis gwir philomath yr oedd Lewis yn un o ysgolheigion prin y ganrif a sylweddolodd ei bod yn hanfodol bwysig i'r llenor, cyn dechrau mynd i'r afael ag ysgrifennu, ddarllen gweithiau'r gorffennol. Ymhlith ei gasgliadau ei hun o lawysgrifau ceir gweithiau beirdd megis Dafydd ap Gwilym a Lewys Glyn Cothi ynghyd â nifer o lawysgrifau o ddiddordeb hynafiaethol sydd yn bwrw goleuni ar draddodiadau ac arferion gwerinol ardaloedd arbennig o Gymru. Ymwelodd â phrif lyfrgelloedd y Gogledd, megis Hengwrt a Chorsygedol, ac ymgyfarwyddodd â'r hen lawysgrifau Cymreig. Ond cyn hynny, yr oedd Lewis a'i frodyr wedi cael blas ar lunio eu casgliadau eu hunain o farddoniaeth, chwedlau a diarhebion a hynny pan oeddent yn eu harddegau. Tyfodd ac ehangodd diddordeb Lewis mewn canu gwerin ac aeth ati i gasglu ynghyd yr hyn a allai o gerddi, rhyddiaith ac arferion gwerinol y canrifoedd a fu. Yn sgil y diddordeb hwn daeth i gysylltiad â rhai o gynheiliaid y traddodiad barddol yng Nghymru, beirdd gwlad megis Siôn Tomos Owen o Fodedern ac Owen Gruffydd o Lanystumdwy. Teimlai'r beirdd hyn ei bod yn argyfwng ar gerdd dafod yng Nghymru ac yr oeddent yn fwy na pharod i rannu eu gwybodaeth â

llanc ifanc a ymddiddorai yn y gelfyddyd. Dyma'r beirdd a fu'n cyddadlau gyda Lewis mewn ymrysonau yn erbyn beirdd siroedd Meirionnydd, Dinbych a'r Fflint. Anfonodd Lewis lythyr a cherdd at Siôn Tomos Owen yn ei annog i hogi ei arfau barddol wedi i feirdd Arfon 'gyhoeddi rhyfel yn erbyn ardderchawg feirdd ynys Fôn'. Nododd Lewis fod y frwydr lafar hon wedi ei chyhoeddi:

...gida'r fath ddigllonedd mawr iawn mae'n debyg mae o achos
bod môn yn cael yr anrhydedd o enw mam gymru a phob un oi
merched yn chwenych yr un parch.³

Y mae'r englynion a anfonodd yn feirniadol iawn o'r 'coeg feirddion' a fentrodd ymryson â beirdd Môn! Ymgyfarwyddodd yn drylwyr â llenyddiaeth ei wlad ac yr oedd ei ddiddordeb mewn llawysgrifau yn gyfle iddo'i drwytho'i hun yn y traddodiad barddol ac i feithrin ei ddawn greadigol. Yn wahanol felly i nifer o'i gyfoeswyr gallai Lewis Morris honni bod nodweddion barddoniaeth Gymraeg ar flaenau'i fysedd. Daeth i garu llenyddiaeth a cheisiodd yn ei waith adfer rhywfaint ar gywreirwydd y traddodiad Cymreig. Tybed ai gor-ddweud fyddai honni iddo deimlo cyfrifoldeb i gyfansoddi cerddi gwasael a phenillion telyn er mwyn cyfoethogi'r casgliad a fodolai eisoes ac i annog eraill i ddilyn ôl ei droed? Yn sicr, teimlai ddyletswydd i adfer gogoniant llenyddiaeth Gymraeg ac i godi safon y mesurau gwerinol. Yr oedd ei ymwneud â'r ymrysonau barddol a gynhelid yn y cyfnod yn brawf pendant o'r modd y'i symbylwyd, a hynny o oed ifanc iawn, i gynnal yr awen ymysg y beirdd gwlad a chynnal hefyd y traddodiad o ganu'n fyrfyfyr. Defnyddiodd fesurau'r werin fel cyfrwng i gyfansoddi cerddi cywrain eu crefft a'u cynnwys. Fodd bynnag, perthynai elfen ddeublyg i'w weithgarwch llenyddol oherwydd tra mawrygai'r mesurau rhydd, anogai ei gywion beirdd, beirdd a ystyriai yn feirdd clasurol megis Goronwy Owen ac Ieuan Fardd, i gyfansoddi yn y mesurau caeth, ac wrth linydd mesur beirniadaeth lenyddol glasurol y barnai eu gwaith.

Ymhlith y cyfansoddiadau cynharaf o waith Lewis ceir pum cân wasael ac wrthynt y dyddiad 1717.⁴ Nid oedd y bardd ond llanc un ar bymtheg neu ddwy ar bymtheg oed yn eu cyfansoddi ac mae iddynt arwyddocâd pwysig wrth ystyried y dylanwadau llenyddol a fu arno yn gynnar yn ei oes. Y mae'n amlwg iddo gael ei ysbrydoli gan gyfoeth y penillion telyn a'r rhigymau a adroddid ar lafar gwlad, a meistrolodd dechnegau'r

farddoniaeth gynhenid. Cyfansoddodd gerddi gwasael yn ôl patrwm yr hyn a glywai gan y beirdd gwlad. Wrth drafod ei gerddi gwasael y mae'r llawysgrif sydd yn cynnwys 'Miscellaneous Notes, Customs and Superstitions Relating to Anglesey' yn ddiddorol iawn ac yn dyst i waith Lewis yr ysgolhaig.⁵ Y mae'r adran hon yn y llawysgrif yn adran helaeth ac ynddi nodir ofergoelion ac arferion trigolion Ynys Môn. Cyfeirir at ganu haf, canu Gŵyl Fair a Nadolig, cadw plygain yn yr eglwys a chanu carolau. Nodir bod carolau i'w canu wrth gynnal gwynnos cyn angladd a chyfeirir at 'newid cwmpeini' ar 'ddydd gwyl ivan' a 'chlappio cyn y Pasg'. Ceir yn y llawysgrif hefyd arferion yn ymwneud â nos Calan Mai, sef yr arfer o wyllo canhwyllau cyrff yn mynd tua'r eglwys a chyfeirir at:

Swper nos Glanmai, Say ye meet on ye Table In ye night. The 4 women hideing themselves in ye corners of ye room. Their sweet-hearts will come in & eat, though a Hundred miles off. (BL Add 15059, f. 143).

Llosgi cnau a wneid ar noson Galan gaeaf:

Those that burn clear live, black die. Taflu carreg i'r goelcaith, if black in ye morning die, & contra. Ol troed mewn coelcaith, if next day without a heel, die. (BL Add 15059, f. 144).

Cyfeirir at arferion yn ymwneud â phriodasau yn y llawysgrif yn ogystal. Casglodd Lewis hanesion ynglŷn ag arferion priodi yng Ngheredigion ac yr oedd yn gyfarwydd iawn â'r 'pwnco' priodas fel y gwelir mewn llawysgrif ddiweddarach ganddo.⁶ Ysgrifennodd am daith y briodferch a'r priodfab i'r eglwys:

In their way to church Plays fiddles or harps & dance morris dances all ye way. The bride handed by two young men, & ye Bridegroom by two women, In a very Solemn manner. (BL Add 15059, f. 142).

Rhestrir diarhebion yn y llawysgrif megis 'Gweled oen bach ai din attoch, blwyddyn yn wysg ei thin' (BL Add 15059, f. 143). Yr oedd Lewis yn ymwybodol iawn o ddylanwad ofergoelion ar y werin. Ebychodd: 'What strong effects superstitions have upon men!' (BL Add 15059, f. 143). Yn wir, dywedodd y dylid ymatal rhag cofnodi rhai o'r arferion hynotaf mewn Saesneg rhag datgelu ein bod yn genedl o'n cof! Ysgrifennodd:

Lesser customs & coelion should be handled in Welch so as not to

give other nations occasion to Laugh at us...(BL Add 15059, f. 143).

Mewn llythyr at ei frawd William, 14 Hydref 1757, ysgrifennodd Lewis am ofergoelion:

I am not over credulous about those things, and scepticism is madness, for we really know in general very little or nothing in comparison to what is to be known.⁷

Yn y llythyr hwn trafoda Lewis ofergoel sy'n ymwneud ag Esgair y Mwyn lle y gweithiai:

People that know very little of arts or sciences or of the powers of Nature (which in other words are the powers of the Author of Nature) being full of conceit of their own abilities and knowledge, will laugh at us Cardiganshire miners that maintain the being of knockers in mines – a kind of good natured impalpable people but to be seen and heard, and who seem to us to work in the mines ...⁸

Mae gweddill y llythyr yn trafod y syniad o ymyrraeth y bywyd goruwchnaturiol, a chred fod y pwnc yn haeddu sylw manylach:

This topic would take a large volume to handle properly and I wish an able hand would take the task upon him to discuss the point, perhaps some extraordinary light into nature might be struck out of it.⁹

Amlygir y diddordeb hwn gan Lewis ymhellach yng ngosodedigaethau'r Cymmrodorion lle y nodir mai un o amcanion y Gymdeithas oedd ymchwilio i nodweddion ofergoeliaeth Cymru. Atega hyn oll arwyddocâd y llawysgrif. Yn sicr, y mae hon yn llawysgrif bwysig iawn ac y mae'n ddigon posibl y bwriadau Lewis ei chyhoeddi. Fodd bynnag, er na wnaed hynny, y mae ei bodolaeth yn ddigon o dystiolaeth i'w diddordeb yn arferion gwerin Cymru ac yn enwedig yn arferion ei ardal. Ymgwymerodd Lewis Morris â'r swyddogaeth bwysig o swcro'r diwylliant gwerinol yn ogystal â'r tarddodiad o ganu'n glasurol drwy gyfrwng y mesurau caeth.

Yr oedd aelwyd y Morrisiaid ym Mhentre-eiriannell, megis nifer o aelwydydd eraill yn y cyfnod, yn ganolfan gymdeithasol lle yr ymgasglai cymdogion i fwynhau nosweithiau llawen. Ceir cyfeiriadau cyson yn llythyron y tri brawd at nosweithiau difyr a dreulwyd ganddynt ac y

maent yn dystiolaeth o'u cynefindra ag arferion gwaseila'r ardal. Ceir disgrifiad o swper Medi gan Lewis Morris mewn llythyr a ysgrifennodd at ei frawd Richard wedi iddo symud i Geredigion, 22 Awst 1760. Gwelir felly iddo barhau â'r diddordeb yn yr arferion a fu'n rhan mor bwysig o'i blentyndod:

... daccw 45 o bobl gwedi bod ddoe yn medi y rhŷg eiddof, a pheth pŷs hefyd ... a rhoi tannau yn y ffidl goch bren, a ffidler yn canu iddynt gwedi bwytta lloned eu boliau, a mynd i'r sgubor ar y llawr coed, a dawnsio o honynt yno hyd nad oeddynt yn chwys diferol a sten fawr a chwrw wrth eu cluniau, a darn o dybacco i bob un. Dyna fywoliaeth!¹⁰

Ceir cyfeiriadau gan William, y brawd na symudodd o Fôn, at wyliau mabsant o amgylch ei gartref a cheir ynddynt dystiolaeth i ymgais y Methodistiaid i barchuso'r gwyliau a'u gwneud yn llai paganaidd eu naws – “Wfft o'r drefn, ie, dwbl wfft hefyd” oedd ei ymateb dirmygus! Dangosodd William mewn llythyr at ei nai, John Owen, 18 Hydref 1758, fod yr hen arferion yn fyw ac yn iach ym Môn:

Nid rhaid ichwi carcu ynghylch y Gwylmabseiniau, mi wrantafi y Monwysiaid na ollyngant byth monynt yn angof.¹¹

Y ffynhonnell bwysicaf wrth gloriannu cyfraniad y Morrisiaid, ac yn enwedig Lewis, i barhad arferion gwerinol Môn yw *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi*.¹² Llawysgrif yn llaw llanc pedair ar ddeg neu bymtheg oed yw'r llawysgrif bwysig hon ac y mae'n arbennig o ddadlennol wrth inni ystyried cyfraniad Lewis a Richard i farddoniaeth Gymraeg. Tystia'r llawysgrif i fagwraeth ddiwylliannol y brodyr ynghanol y traddodiad gwerinol ac y mae'n amlwg iddynt efelychu'r traddodiad hwnnw yn ogystal ag ymhyfrydu ynddo. Efallai mai un o'r rhesymau pam yr aeth Richard Morris ati i gofnodi'r cerddi amrywiol hyn oedd oherwydd ei fod yn gweld defodau yn prysur ddiplannu yn ei ardal. Wrth ddarllen gweithiau Lewis yn y llawysgrif ceir ymdeimlad o ymwneud â hen arfer ac y mae'n sicr y gwyddai'r brodyr eu bod yn canu mewn hen draddodiad. Y mae'n ddigon posibl, megis yr awgryma'r Parchedig Ddr Dafydd Wyn Wiliam yn ei gofiant i Lewis,¹³ i waseilwyr ofyn iddo gyfansoddi ar eu cyfer gan ei fod yn dangos dawn i farddoni yn ifanc. Nid af i fanylu ar gynnwys y llawysgrif yma, ond digon yw dweud ei bod yn cynnwys amrywiaeth helaeth o garolau gwirod, dyriau, awdlau,

englynion, enwau mesurau, ymddiddanion a'r rhan fwyaf yn perthyn i'r ail ganrif ar bymtheg. Gweithiau ydynt gan feirdd megis Huw Morys a Siôn Prys a chan fod amryw o'r cerddi yn ddienw y mae'n bosibl y perthynant i gyfnod cynharach eto. Megis y disgwylid gan lawysgrif gyfoethog fel hon, y mae'r cerddi yn cynnwys holl nodweddion y canu gwerinol a diau fod eu dylanwad ar gerddi gwreiddiol Lewis.

Gwelir bod Lewis, wrth aeddfedu, wedi cywilyddio at rai o'r cerddi o'i eiddo a geir yn y llawysgrif hon, gan deimlo nad oedd yn barod i'w harddel. Ceir mewn cromfachau wrth y gerdd 'Carol Gwirod ar "Ffarwel Trefaldwyn"' y geiriau 'c'wilydd ei gweld na'i chlywed', a cheisiodd ddileu ei enw o ddiwedd nifer o gerddi eraill. Noda T.H. Parry-Williams fod chwe thudalen (tt. 71a–76b) wedi eu torri ymaith yn eithaf taclus o'r llawysgrif. Awgryma fod y llawysgrif wedi bod yn nwylo Lewis oherwydd iddo ysgrifennu nodiadau yma ac acw, a chan iddo geisio dileu ei enw fel cyfansoddwr rhai o'r cerddi awgryma ymhellach mai yntau a'u torrodd ymaith. Y mae'r ddadl dros gredu hyn yn ddigon cryf gan fod rhai o'i gyfansoddiadau ef wedi bod ar y tudalennau hyn, megis y profa'r ymadrodd 'L.M. ai cant' sydd i'w weld ar rai o'r bonion. Yn sicr, y mae'n resyn ein bod wedi colli cerddi a allai daflu goleuni pellach ar arferion gwaseila'r cyfnod. Dileodd ei enw o lawysgrifau eraill hefyd, megis o dan y gerdd 'I'w Ddarpar Wraig'.¹⁴ Nid dyma'r tro olaf i Lewis ymboeni bod gwaith annheilwng ohono ar glawr. Poenai fod rhai o'i gerddi wedi ymddangos yn y *Diddanwch Teuluaid* 1763 heb ei ganiatâd a heb iddo gael cyfle i'w caboli. Y mae'n debyg nad oedd y cerddi yn cyd-fynd â datblygiad ei syniadau aruchel ohono'i hun fel bardd ac ysgolhaig! Ymddengys i Lewis fagu diddordebau mwy soffistigedig wrth iddo ymdroi mewn cylchoedd ehangach ac 'ymrwbio yn y mawrion'. Serch hynny, ni chefnodd yn llwyr ar ei waith cynharaf, ac yn wir, nodweddir nifer o'i gerddi rhydd aeddfed â chrefft y canu gwerinol.

Tystia cerddi gwasael Lewis i fywiogrwydd y canu ym Môn yn nechrau'r ddeunawfed ganrif. Deallodd natur y canu gwasael i'r dim er na lwyddodd i lwyr ddirnad pob confensiwn, ac er mai nodwedd amlycaf y caneuon yw eu diniweidrwydd, y maent yn gerddi cywrain eu crefft. Nid yw'r cerddi heb wendidau, fel y disgwylid gan fardd mor ifanc: ceir nifer o eiriau ac ymadroddion llanw (nodwedd amlwg ar y canu yn gyffredinol, wrth gwrs) ac megis y nodwyd eisoes, methodd â deall

arwyddocâd pob confensiwn. Ceir un enghraifft amlwg o'r camddeall hwn yn y gân 'Pennill Gwirod ar "Let Burgundy Flow"'. Cenir yma i ferch a gynrychiolai Fair; eisteddai ar gadair yn ystod dathliadau Gwyl Fair y Canhwyllau, ond y cwpled a geir yn y llawysgrif yw:

Rhowch gader ar lawr a gwnewch groeso mawr,
Ni genwn yn gampus o gwmpas hen awr. (t. 36a)

Efallai, megis yr awgryma Dr Meredydd Evans,¹⁵ mai Richard Morris a fu'n esgeulus wrth gofio a gellir amcanu mai'r hyn y bwriadai ei ddweud oedd:

Ni genwn yn gampus o gwmpas hon nawr
sydd yn rhoi gwell ystyr i'r llinell. Nid dyma'r tro cyntaf i Richard wneud gwall copïo, ond nid dyma'r tro cyntaf i Lewis gamddeall confensiwn ychwaith. Yn 'Carol Gwirod yn Drws ar "Ddau Fesur"', ceir y pennill hwn:

Elin, Elin, agor ddrws,
Y rhien feindlws ara',
Ac onide mi af ymhell
Lle caffwy' well mwyneidd-dra.

Ceisio adleisio un o gyfarchion stoc y canu gwasael yr oedd ac y mae'n debyg mai'r hyn a fwriadai ei ddweud oedd 'holin, holin'. Fodd bynnag, ni ddylid diystyru'r posibilrwydd mai newid 'Olin, olin' i 'Elin, Elin' yn fwriadol a wnaeth y bardd, a hyn er mwyn cyfarch merch arbennig yn yr ardal. Y mae hyn yn sicr yn bosibl oherwydd annisgwyl fuasai i Lewis Morris, gŵr a ymgyfarwyddodd â'r llawysgrifau, wneud y fath gamgymeriad elfennol. Esboniad arall yw ieuenctid Lewis wrth gyfansoddi'r cerddi hyn ond go brin y byddai Lewis, y bardd aeddfed, wedi camddeall y confensiwn.

Cyfeiria Lewis at y wasael, y ddiod, yn ei gerddi. Erfynia ar y teuluoedd:

Na fyddwch amharod i dderbyn ein gwirod
Rhag anghlod i'r cyfnod sy' yn canlyn. (BL Add 14992, f. 31b)

Rhowch barch i'r wirod hynod hon
Na fwrion yn oferwaith. (BL Add 14992, f. 53a–b)

Y mae cyfeiriadau fel hyn yn ddigon cyffredin yn y canu gwasael, ac felly pwysleisir ymhellach y gwyddai Lewis ei fod yn canu'n

draddodiadol. Ar fesur carol y cyfansoddwyd 'Carol Gwirod yn Drws ar Ddau Fesur' ac eithrio'r pennill olaf sydd ar fesur tri thrawiad. Ceir rhestr gan Lewis yn un o'i lawysgrifau o'r cerddi a gyfansoddodd ar fesur carol,¹⁶ ac y mae rhai o'i gerddi aeddfetach wedi eu cyfansoddi ar y mesur hwn ac yn aml yn arddangos ei ddawn i farddoni ar ei gorau. Defnyddir confensiwn y rhwystrau yn y garol hon. Y tywydd, sef y glaw a'r gwynt a'r oerfel, sydd yn creu'r anghyfleustra. Ceir tinc crefyddol yma wrth i'r bardd wadu mai begera am ddiod fedd y mae:

Nid o chwant eich medd na'ch bir
Ry'm yn wir yn canu,
Ond hyn o garol gweddol gwiw
Sy' yn enw Duw i'w draethu.

Serch hynny, cyfeirio at grefydd mewn modd confensiynol iawn a wneir yma. Y mae'r prinder cyfeiriadau crefyddol yn nodedig yng ngwaith Lewis ond synhwyrir bod y sylwadau a geir ganddo yn ddiwyll iawn. Bygythia'r bardd adael drws y tŷ os na cheir ateb yn sydyn oddi mewn, a chyda diflaniad y gwaseilwyr fe gollir yr hwyl a daw anlwc ar yr aelwyd. Ceir siars ar ddiwedd y gerdd i dderbyn yr wirod er mwyn sicrhau cyfnod llewyrchus. Cyfeirir at nifer y gwaseilwyr, dau ohonynt yn y gerdd hon,¹⁷ a gwelir hefyd y cyfarchiad stoc lle y gelwir y teulu yn 'gwmni glân'. Gofynnir am ateb i'r garol bedair gwaith, ac am ateb i'r posau a geir ynddi:

Ac oni atebwch ni yn glau
Ni chenwn ni'n dau ond hynny
Rhowch ateb am hyn eto
Rhowch ateb i ni ar fyr dro
Rhowch ateb am hynny, y cwmni glân heini

a mynegir yr awydd i barhau â'r hen draddodiad. Nid yw'r mesur yn gwbl gyson drwyddo draw a byddai diffyg cysondeb o'r fath yn cael ei ystyried yn ansafonol gan feirdd y traddodiad caeth, ond roedd yn nodweddiadol o gerddi'r werin. Serch hynny, y mae'n garol ddigon celfydd gyda'r gynghanedd sain gyflawn a geir yn y llinell:

Y cwmni graddol, moddol mwyn

yn ychwanegu at y cyffyrddiad cynganeddol. Rhan o gywreinrwydd cerddi Lewis yn y mesurau rhydd yw eu cyffyrddiadau cynganeddol, a

pherthyn iddynt grefft ofalus sydd yn pwysleisio mai bardd wedi llwyr feistrolï'r pedwar mesur ar hugain sydd ar waith.

Cân i'w chanu wrth y drws i geisio mynediad yw'r gerdd 'Carol Gwirod ar "Ffarwel Trefaldwyn"'. Unwaith eto cyfeirir at y 'glân gwmpeini', ond y tro hwn y 'brynïa' a'r 'bronnydd' fu'r rhwystrau ac fe bwysleisir caledi'r tywydd:

Mae'n anghla'r inni fod
Yn aros wrth ych drysa',
Mor fudron ydi ein berra',
Yn rhynnu yn yr eira ar ôl.

Deallwn fod mwy nag ugain o waseilwyr yn canu'r garol hon ac y maent i gyd am 'gaffael gynthoch lety' ac yn erfyn ar i'r teulu 'agoryd drwy bur gariad'. Addewir canu:

...caniad
Difyr dyfiad, clymiad clir
O waith prydydd da'i awenydd
Sydd ar gynnydd yn ddi-gur...

Awgryma Dr Dafydd Wyn Wiliam mai cyfeirio ato'i hun a wna'r bardd yma, a hawdd yw cytuno â hynny. Cyfeirir unwaith eto at 'gwrw a bir a bragod' yn ogystal ag at fwyd:

Pasteiod a chwstardie a choleps a chrampoge
a mynegir y 'cariad' neu'r parch at y wirod:

Am hynny agorwch i ni ych drysa',
Dyna ein bwriad - tynnu y baria'
A'n gollwng yn ddigellwar
I gael ych croeso hawddgar.

Dwy gerdd fer yw 'Cwlwm i'w roi ar ben Carol Gwirod ar "Collier's Daughter"' a 'Pennill Gwirod ar "Let Burgundy Flow"', ac y maent hwythau hefyd i'w canu ar donau penodol y gallai Richard Morris eu 'canu ar y ffidl'. Y mae'r ail garol yn cynnwys rhai o nodweddion amlycaf y canu gwasael ac y mae her yn y llinellau canlynol – nodwedd sydd i'w chael mewn cerddi gwasael eraill:

Nid eill un dyn hen a barf ar 'i ên roi ateb i'n carol,
A'i fesur yn foesol na fisied un tro er dim ar a fo.

Yn y llinellau hyn fe'n hatgoffir o'r hen arfer, a oedd yn dipyn o her i ddynion â barf, o osod canhwylau ar y cwpan gwasael ac yfed y ddiod heb losgi. Y mae'n bosibl hefyd y cynigiai'r gerdd ormod o waith cofio i hen ŵr. Dyma, mewn gwirionedd, sydd fwyaf tebygol gan mai at ateb y garol y cyfeirir yma, a hynny ar fesur cymhleth, heb 'fasio un tro'. Diddorol yw gweld Lewis yn cyfeirio at yr hen 'godswm' yn y garol hon hefyd – prawf pellach o'i ymwybyddiaeth ei fod yn dilyn traddodiad wrth ganu caneuon gwasael.

Ceir pum pennill ar fesur tri thrawiad, dau ar fesur carol a'r pennill olaf ar fesur pennill telyn yn y gerdd 'Carol Gwirod yn Drws ar "Dri Chwarter Tôn"'. Y mae dechrau'r gerdd yn nodweddiadol o'r cerddi gwasael gyda'r bardd yn hawlio sylw'r gwrandawyr:

Pendefigion mwynedd a'r gwiw deulu gwared
Rhowch osteg yn llariedd, rai hafedd o hyd,
I wrando ar bereiddion, mwyn leisio melynion,
A'u traethu yn dra hyfion, dro hyfryd.

Ceir ymdeimlad o'r twrw mawr a wnaed gan y gwaseilwyr:

Drwy nerth ein ffyn y down ni i mewn

Gwelir, felly, fod Lewis Morris yn ailadrodd confensiynau'r canu gwasael dro ar ôl tro yn ei gerddi. Yr oedd yn effro iawn i'r traddodiad ac i ddirywiad y traddodiad hwnnw a thrwy gyfrwng ei gerddi, ymdrechodd i atgyfodi peth o gyfoeth arferion gwerinol Cymru.

Gwelir bod y cerddi gwasael o waith Lewis yn cynnwys enw'r tonau y bwriadwyd eu canu arnynt. Gwyddai Lewis am draddodiad y tonau Cymreig ac aeth ati i gyfansoddi penillion ar eu cyfer. Ymddiddorai'n fawr mewn cerddoriaeth a daeth un o lawysgrifau Robert ap Huw (1580–1665), y telynor a'r bardd o Fôn, i'w feddiant. Yn 1729 derbyniodd lythyr gan Siôn Rhydderch a resynai na allai ysgolheigion ddeall hen gerddoriaeth Gymreig. Ysgrifennodd Siôn Rhydderch:

Ac am fod yn gydnabyddus â neb a'r sydd gyfarwydd yn yr hên Geingciau Cymreig, cym mhelled a bod yn deall yr hên Gerddoriaeth, ni ddaethym i yn gydnabyddus âg un o'r cyfryw hyd yn hyn o'm hoes, er i mi ddangos yr hên Nodau sydd genni i rai.¹⁸

Yr oedd Lewis eisoes wedi gofyn am 'yr hên Geingciau Cymreig'¹⁹ ond bu'n rhaid i'r Morrisiaid gydnabod, er mawr siom iddynt, na allent

ddarllen casgliad cerddorol Robert ap Huw. Ar ddiwedd llawysgrif Robert ap Huw ysgrifennodd Lewis, ‘Statud y Gwyr wrth Gerdd o waith Gruffudd ap Cynan ... o hen lyfr ysgrifen’ a chyfeiria ati ymhellach yn un o’i lawysgrifau ei hun:

Llyma y 24 mesur cerdd dant ... Y Rhain a dynais allan o hen lyfr a fuase gan robert pugh y telynior, llei roedd cantoedd o hen geincie gwedi ei pricio a llythrennau.

Mae y llyfr hwnw genifi. Lewis Morris.²⁰

Teulu cerddorol iawn oedd y Morrisiaid a cheir cyfeiriadau yn eu llythyron at ‘ganu gyda’r tannau’. Mewn un llawysgrif ceir darn gan Lewis ‘Ynghylch canu delyn...’ a chyfeiria at fathau o delynau. Dyfynnaf:

Mae mewn telyn (siengel) ganmwyaf ynghylch deuddeg ar hugain o dannau. (Ond mewn un Drebel bydd o ddeutu triugain a phedwar). Y tannau byrraf a elwir *cildannau*, a’r rhai hwyaf a elwir *bwr dynau*. Hi a genir a dwylaw, sef un llaw ar y Cildannau, ar llall ar y byrdonau. Wrth ganu telyn Drebel, chwith a chwery y cildannau; ag mewn unpâr, yr unllaw ai chwery hwynt; Hefyd a’r llaw ddehau y troi’r ebillion telyn sienegl, (neu unpar;) ag a’r llaw chwith a’r dehau y troi’r ebillion telyn Driphar.²¹

Dyma drafodaeth ddigon technegol ar ganu’r delyn sy’n dangos fod Lewis Morris yn gyfarwydd â cherddoriaeth. Hoffai Richard Morris hefyd ganu offerynnol a lleisiol. Ceir cyfeiriad gan Goronwy Owen yn un o’i lythyron at Richard at delyn Pentre-eiriannell:

Mae’r Delyn o Bentre Eiriannell? Dyma Robert [mab Goronwy Owen], er pan glybu sôn am dani, wedi troi’r llall heibio, ac yn dywedyd fod yn o fustlaidd gantho ganu Telyn Bapir. ‘Roedd yn dra hoff gantho hon o’r blaen, ond weithion, mae’n o *how* gantho’i gweled, ac ni chair mono atti o hyd pigfforch a rhaff rawn mwy na *D. ap Gwilym* gynt at y Delyn Ledr. Da iawn gan y Llangc Delyn, ond nid Telyn Bapir. Telyn like that he saw in Wales a fyn y Dyn.²²

Yn 1726 anfonodd Lewis dannau telyn o’i waith ei hun at William Bulkeley o’r Brynddu ynghyd â phum englyn o’i waith. Y mae’r englyn canlynol yn brawf o’r dirywiad a fu yn y cyfnod hwn ar ganu â thelyn:

Nid oes nawr, - dirfawr darfu! - na maswedd
Na miwsig yng Nghymru,
A diau oedd fod dydd a fu
Telyn gan bob penteulu.²³

Gwnaeth y Morrisiaid a'u cyfeillion eu gorau i chwythu gwynt newydd i hwyliau'r hen draddodiad. Mynychodd Lewis gyfarfod i feirdd ym Mhenmorfa yn 1739 ac ysgrifennodd: 'I met at Penmorfa with Wil Elias [y *Bardd*], and we got a Harper and some *datcanwyr*, and made one Night of it...' ²⁴ Cyfyd hyn gwestiwn diddorol am natur cerddi Lewis wrth ystyried a oedd ef yn perfformio ac yn datgan ei gerddi. Yn sicr, yr oedd yn awyddus i eraill eu canu. Ysgrifennodd mewn llythyr at Richard, 10 Ebrill 1740, gan sôn am farwnad a gyfansoddodd ar y dôn 'Morfa Rhuddlan': '...[it] is to be sung with an audible voice in all companies that love the game.'²⁵ Nododd Richard yr alawon y gallai eu canu yn ei lawysgrif o gerddi. Ceir ganddo 'Henwau notes y viol' ac y mae'n amlwg y gwyddai am y mesurau a'r tonau hyn yn gynnar yn ei oes gan mai'r dyddiad 1718 a geir ar derfyn y rhestr. Yr oedd y ddawn gerddorol felly yn ddawn deuluol megis y tystia llythyr William at Richard, sy'n cyfeirio at noson o ganu ar yr aelwyd, 13 Ionawr 1754: 'Telyn ein nith Marged Owen, who plays very pretty, and Ffoukyn's violin, the parson, father, myself, etc., yn canu gyda'r tannau'.²⁶ Yr oedd pob un o'r tonau a ddefnyddiodd Lewis ar gyfer ei gerddi gwasael yn adnabyddus i Richard, ei frawd. Felly ni ddewisiodd donau newydd a gwahanol yn gyfeiliant i'w gerddi gwasael. Nid yw hyn yn nodweddiadol o fesurau a phynciau barddoniaeth Lewis Morris. Y mae'n nodedig am ei newydd-deb wrth ymdrin â mesurau a dylanwadwyd yn fawr arno gan lenyddiaeth Seisnig ei gyfnod. Y mae hyn yn arbennig o wir am ei gerddi maswedd. Diau fod sicrhau parhad y tonau Cymreig yn flaenllaw yn ei feddwl ac wrth gyfansoddi cerddi defnyddiai gymysgedd o donau Cymreig a Seisnig wedi eu 'Cymreigio' neu wedi eu haddasu ar gyfer mydryddiaeth Gymraeg. Honnodd fod y beirdd i gyd wedi bod yn delynorion unwaith a gresynai fod alawon Ffrengig a Seisnig wedi treiddio i Gymru. Y mae ei lythyr at y bonheddwr Owen Meyrick yn ddadlennol iawn.²⁷ Cywilyddiai'r Morrisiaid a'u cyfeillion oblegid bod geiriau rhai o'r penillion a gyhoeddwyd tua chanol y ddeunawfed ganrif wedi eu cyfansoddi i'w canu ar alawon estron. Ond, wrth gwrs, fel y mae Phyllis Kinney wedi dangos yn ei thrafodaeth ar alawon y cyfnod, y mae'n

ddigon posibl i delynorion Cymru roi enwau Saesneg i'w tonau, er mai yn Gymraeg y cenid y penillion, er mwyn denu sylw'r bonedd a oedd yn Seisnigo'n gyflym.²⁸ Gellid honni i Lewis wneud rhywbeth tebyg wrth iddo roi teitlau Saesneg i'w gerddi rhydd Cymraeg. Fodd bynnag, ar gyfer ei gerddi gwasael, defnyddiodd Lewis donau cyfarwydd, tonau yr oedd ef wedi arfer eu clywed gan waseilwyr yr ardal.

Gellir bod yn eithaf sicr felly fod y 'canu yn drws' yn arfer byw ym Môn yn ystod y ddeunawfed ganrif, ac yn ôl tystiolaeth Dr Dafydd Wyn Wiliam gwyddom am o leiaf un bardd arall o Fôn a luniai garolau gwirod tua'r un adeg â Lewis, sef Richard Parry.²⁹ Fodd bynnag, er gwaethaf poblogrwydd y canu nid oedd llawer o gerddi newydd yn cael eu cyfansoddi a dibynnai'r gwaseilwyr ar yr hen gerddi. Camodd Lewis i'r adwy ac yr oedd yn ddyledus i'r math hwn o ganu am ennyn ei ddiddordeb mewn barddoniaeth. Bu'n ymarfer da iddo gan fod datblygiad a gwelliant amlwg i'w weld yn ei gerddi rhydd diweddarach, sydd yn dipyn mwy pendant eu trawiad na safon anwastad y cerddi cynnar. Gyda threigl y blynyddoedd cefnodd Lewis ar arferion gwerinol ei fro, ond yr oedd eu dylanwad arno yn bellgyrhaeddol.

Âi ei ddiddordeb yn y canu gwasael law yn llaw â'i ddiddordeb yn y penillion telyn neu'r hen benillion. Y mae arwyddocâd pwysig i arddull a mesur y penillion telyn yng nghyd-destun cerddi Lewis Morris oherwydd eu dylanwad ar ei waith. Ef oedd un o'r ysgolheigion cyntaf i'w gwerthfawrogi a'u hefelychu mewn cerddi telynegol o'i waith ei hun sy'n dwyn i gof symlwrwydd a diniweidrwydd y penillion. Aeth ati i briodoli eu nodweddion i lenyddiaeth fwy soffistigedig a ddenai fryd boneddigion y cyfnod. Yr hyn sy'n ddiddorol yw iddo ymhyfrydu yn y penillion, nid yn unig oherwydd eu crefft ddilyffethair, ond hefyd am iddo eu cysylltu â'r derwyddon ac am y credai fod iddynt dras hynafol. Yr oedd yn hollol anghywir wrth gwrs! Y ffynhonnell bwysicaf yn y cyd-destun hwn yw'r llythyr 'On the Cambro British Musick' a anfonodd Lewis at y bonheddwr Owen Meyrick. Honnodd yn y llythyr mai gweddillion canu derwyddol oedd y penillion telyn. Rhyfedd gweld bod ysgolhaig o allu Lewis wedi gallu credu'r fath beth, neu ai ymgais ydoedd i ddenu bryd bonheddwr Seisnig i lenyddiaeth Gymraeg? Tybiaf fod hyn yn debygol iawn oherwydd fe'i gwelir droeon yn ceisio denu bryd noddwyr i lenyddiaeth Gymraeg. Yr oedd yn feistr hefyd ar daflu

llwch i lygaid er ei ddibenion ei hun. Ni fyddai wedi canfod pennill telyn mewn llawysgrif gynharach na'r unfed ganrif ar bymtheg a rhaid cofio ei fod wedi byseddu llawysgrifau cynharach na hynny. Diau ei fod wedi credu yn ei dwyll ei hun yn ei ymgais i sefydlu hynafiaeth y canu gwerinol. Ni fyddai Owen Meyrick wedi anghytuno â'r ysgolhaig ar y pwnc hwn ond ni cheir tystiolaeth ychwaith iddo fod o unrhyw gymorth gwirioneddol gydag ymdrechion llenyddol Lewis Morris. William Vaughan, Corsygedol, ydoedd y noddwr a rannai'r un diddordebau llenyddol â Lewis ond prin oedd ei ddylanwad ac ni fyddai Lewis wedi gallu ei dwyllo mor hawdd. Fodd bynnag, er gwaethaf y camargraff elfennol hwn, ni ellir llai na rhyfeddu at werthfawrogiad sensitif ac ystyrlon Lewis o'r penillion yr ymhyfyrdai ynddynt.

Gellir rhannu nifer helaeth o gerddi Lewis yn null y triban neu'r pennill telyn yn ddau ddosbarth bras, sef y cerddi sy'n ymwneud â serch a'r cerddi sy'n trafod effaith anhwylder a henaint. Yn y gerdd 'Neges â Llythyr Mewn Llaw', y mae Lewis yn anfon ysgyfarnog yn llatai at ei gariad sydd, wrth gwrs, yn ein hatgoffa o'r cywyddau llatai. Parodiodd y cywyddau llatai yn ei gerdd 'Gyrru'r falwen yn gennad at William Bwclai, Brynddu'. Diddorol yw ei weld yn gwneud defnydd helaeth o barodi, hyd yn oed yn ei gerddi caeth. Dengys hyn ei gynefindra amlwg â'r mathau o farddoniaeth Gymraeg a geid yn y llawysgrifau. Yr oedd yn ddigon hyderus ei afael ar nodweddion y canu fel y teimlai y gallai osod ei chwaeth ei hun arnynt a'u defnyddio i'w bwrpas ei hun. I Lewis felly, yr oedd y traddodiad caeth a'r traddodiad gwerinol yn mynd law yn llaw a'r ddau yn tynnu maeth oddi wrth ei gilydd. Nodwyd eisoes mai teitlau Saesneg a roddodd Lewis i'w gerddi ac wrth gwrs, y mae'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn rhywbeth cwbl naturiol yng ngwaith y Morrisiaid, megis y tystia'u llythyron wrth iddynt lithro yn esmwyth rhwng y ddwy iaith mewn paragraffau a hyd yn oed o fewn yr un frawddeg! Y mae'r gerdd 'A Description of the Frenzy of Love' neu 'Ddisgrifiad o Orffwylled Serch' yn ddiddorol oherwydd ceir ynddi gyffyrddiadau hunangofiannol gan mai cerdd i'w wraig gyntaf ydyw, ac y mae hefyd yn gerdd gymharol gynnar o'i waith. Fe'i cyfansoddwyd yn 1728, sef blwyddyn ei briodas. Cerdd hirfaith ydyw, yn ddau bennill ar bymtheg, ac fel sy'n nodweddiadol o'r penillion telyn mae'r bardd yn annerch Ciwpid:

Ciwpid gibddall gwrando 'nghwynion
Ac iachâ glwyfedig galon,
Neu gwna galon fy mun eglur
Yn friwedig o'r un dolur.³⁰

Y mae naws y penillion telyn yn amlwg yma. Awgrymir yn y gerdd nad yw'r ferch yn rhannu'r un teimladau â'r bardd. Cyfeirir ati fel 'Gwen lliw'r hinon' ac y mae'r ailadrodd a geir ynddi yn null y canu gwerinol. Ceisiai Lewis lynu mor agos â phosibl wrth y confensiynau cynhenid wrth gyfansoddi cerddi yn y mesurau gwerinol. Fodd bynnag, y mae'r cyffyrddiadau cynganeddol yn ychwanegu at dechneg y gerdd ac y mae'r delweddau yn aml yn rhai gwreiddiol a newydd. Cymherir y ferch â phethau gwyh ac arallfydol er mwyn pwysleisio ei pherfffeithrwydd ac fe'i clöir yn bendant gyda'r bardd yn gofyn i 'wen lliw'r eira' wrando ar ei 'gŵyn' a'i 'anesmwythdra'.

Ymboenai Lewis am effeithiau henaint arno ac y mae ei lythyron yn frith o gyfeiriadau at y 'fygydfa' a'r 'peswch'. Serch hynny, bu anhwylder yn destun ysbrydoliaeth iddo hefyd. Dychenir henaint ganddo yn aml yn ei gerddi ac fe'i personolir fel rhywbeth gormesol a didrugaredd. Dywedodd unwaith: 'I never met with an author that made *Henaint* a real person, and so Describd him as a Lodger that Could not be drove out of possession.'³¹ Hyderai ei fod wedi taro ar rywbeth newydd yma. Dychenir nodweddion haniaethol henaint ganddo ac y mae hyn yn arbennig o amlwg yn ei gerddi 'Yr Ymdrech rhwng y Bardd a'r Peswch' ac yng 'Nghaniad Hanes Henaint'. Yn y gerdd gyntaf personolir henaint gan greu gwawdlun ohono a'i alw'n 'hwydrwch, hirdrwm' ac y mae'r llinellau yn cyfleu craster y peswch, 'yn crecian â'i gefn crwca'.³² Cyfleir bychander dyn yn erbyn gormes didrugaredd amser. Hen ŵr yn dod i dŷ Lewis liw nos yw henaint yn 'Caniad Hanes Henaint'. Gwas Lewis sydd yn ei ddisgrifio:

Mae'n edrych yn o salw,
Fal rhywbeth hanner marw,
Ac yn ei enau nid oes daint,
A Henaint yw ei enw.³³

Pwysleisir gan Lewis na chafodd Henaint wahoddiad i letya gydag ef, ond yn hytrach daeth 'heb na chên na chennad'. Fodd bynnag, cyhoedda Henaint ei fod yn aros a cheir delweddau trawiadol ohono yn

marchogaeth ar gefn Lewis mewn disgrifiadau ffraeth:

Mae'n droetrwm ac yn drwstan
A'i fol yn gnap fal crochan;
Ychydig bach a'i teifl i lawr,
Ni chyfyd e awr ei hunan.

Erfynia Lewis arno i adael llonydd iddo:

Gad lonydd i brydyddion
I ganu mwyn benillion
A bod yn ieuanc yn eu byw,
Ni cheir y cyfryw ddynion.

Wrth gwrs, nid yw'r delweddau hyn yn arddangos unrhyw wreiddioldeb llenyddol mawr ar ran Lewis. Dilyn hen thema a wna gan fod y beirdd yn gyfarwydd â chanu am henwr neu henaint yn ymddiddan â gŵr ifanc neu ieuencid a'i rybuddio rhag oferedd. Tybiaf mai gwreiddioldeb Lewis yw ei ysgafnder a'r hiwmor amlwg sy'n llechu ym mhenillion y gerdd.

Ni ellir peidio â chyfeirio at un o gerddi enwocaf Lewis yn null y triban, sef 'Gallt y Gofal' sydd yn gweddu i'r dim i hyfrydwch y penillion telyn. Ceir ynddi fynegiant o ffydd dawel ond di-sigl y bardd ac y mae'r dweud yn ddiffuant iawn eto. Yr ysbrydoliaeth i'r gerdd hon oedd symud o'i gartref yng Ngalltfadog i Benbryn. Trwy gydol y gerdd y mae'n chwarae ar enwau'r ddau le a gellir ei dadansoddi ar ddwy lefel, sef ar lefel uniongyrchol wrth i'r bardd ddisgrifio blinderau'r daith, neu ar lefel alegoriaidd wrth iddo bwysleisio treialon bywyd. Agorir y gerdd â delwedd gyffredin o fywyd megis taith ac y mae'r angerdd yn amlwg ynddi. Cyfeiria Lewis ato'i hun fel 'gwanddyn meddal' a chymherir cyfrifoldebau bywyd â dringo brynau gyda Duw yn rhoi nerth i oresgyn problemau. Mynegir ei ryddhad ar gyrraedd pen ei daith ar ddiwedd y gerdd:

Wrth hir gropian ac ym'wino,
Cael i Ben y Bryn dan gwympo;
Rhoi yno 'mhen i lawr i orwedd,
Mawl i Dduw am bob trugaredd.¹⁴

Myfyrdod personol ar fywyd a geir yn y gerdd hon ac ynddi ceir cip unigryw a phrin ar ochr ddiifrifol i bersonoliaeth Lewis. Fodd bynnag, nid yw heb y ddogn arferol o hiwmor a chwerthin am ei ben ei hun.

Pa fath o ddylanwad a gafodd y canu gwerinol ar waith Lewis Morris, y philomath felly? Dylanwad mawr yn sicr. Dysgodd ei grefft wrth ddarllen a chlywed gwaith gwerinol ac efelychodd y traddodiad hwnnw, nid yn unig yn ei waith cynharaf ond hefyd yn ei waith aeddfed. Cymhwysodd ei afael ar nodweddion y canu gwerinol gyda'i ddiddordeb mewn llenyddiaeth gyfoes a'r canu caeth, a chanlyniad hyn oedd iddo gyfansoddi corff o lenyddiaeth amrywiol a difyrus. Nid yw'n eistedd yn hollol esmwyth yn nosbarth y beirdd gwerinol, yn bennaf oherwydd ei ymwneud â'r traddodiad clasurol, mwy dysgedig. Serch hynny, dyna sy'n ei osod ar wahân i feirdd eraill y ganrif, sef ei weledigaeth a'i arbrofi llenyddol yn ogystal â'i ymwneud â dau draddodiad cerdd dafod.

NODIADAU

- 1 Traddodwyd y papur hwn yng Nghwrs Preswyl Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Tregaron, 29 Medi 2002.
- 2 Trafodir yr elfen wyddonol yn niddordebau Lewis gan yr Athro Branwen Jarvis ei herthygl 'Lewis Morris, y "Philomath" ymarferol', *Cof Cenedl*, X (1995), 61–89.
- 3 Cwrtmawr 125B, 151.
- 4 Fe'u ceir yn llawysgrif BL Add 14992.
- 5 BL Add 15059, ff. 141–67.
- 6 Gw. llawysgrif LIGC 13226C, 313–31; cyhoeddwyd yn Dafydd Ifans, 'Lewis Morris ac arferion priodi yng Ngheredigion', *Ceredigion* (1977), 193–203.
- 7 J.H. Davies (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William & John Morris, of Anglesey, 1728–1765*, i (London, 1907), 312.
- 8 *Ibid.*
- 9 *Ibid.*, 313. Y mae'r dyfyniad hwn yn nodweddiadol o natur ymchwilgar personoliaeth Lewis Morris a'i awydd parhaus i wybod mwy.
- 10 J.H. Davies (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William & John Morris, of Anglesey, 1728–1765*, ii (London, 1909), 242.
- 11 *Ibid.*, 92–3.
- 12 Gw. T.H. Parry-Williams (gol.), *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi* (Caerdydd, 1931).
- 13 Gw. Dafydd Wyn Wiliam, *Cofiant Lewis Morris 1700/1–63* (Llangefni, 1997). Y mae pennod VIII, 'Cefndir Lewis y Prydydd', tt. 86–102 yn gyflwyniad cynhwysfawr i'r gweithgarwch llenyddol y trwythwyd Lewis ynddo.
- 14 Gw. BL Add 14934, 42b.

- 15 Gw. ei erthygl sydd yn trafod cynnwys y llawysgrif hon, 'Y Canu Gwasail yn *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi*', *Llên Cymru*, 13 (1974–8), 207–35.
- 16 BL Add 14929, 154.
- 17 Tybed ai Lewis oedd yn datgan a Richard yn cyfeilio iddo?
- 18 Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrisises of Anglesey*, i (London, 1947), 2–3.
- 19 *Ibid.*, 2.
- 20 Gw. BL Add 14905, ff. 62–4. Y dyddiad a geir wrth y dyfyniad hwn yw 1727 ac felly y mae'n gyfeiriad cynnar iawn gan Lewis.
- 21 Gw. LIGC 37B, 21.
- 22 J.H. Davies, (gol.), *The Letters of Goronwy Owen 1723–1769* (Cardiff, 1924), 156.
- 23 Ceir y gerdd yn gyflawn yn Cwrtmawr 37B, 185.
- 24 Emyr Gwynne Jones, 'Llythrau Lewis Morris at William Vaughan, Corsygedol', *Llên Cymru*, 10 (1986–9), 12.
- 25 J.H. Davies (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William & John Morris, of Anglesey, 1728–1765*, i (London, 1907), 22.
- 26 *Ibid.*, 270.
- 27 Gw. 'On the Cambro British Musick', Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrisises of Anglesey*, i (London, 1947), 72.
- 28 Gw. ymdriniaeth Phyllis Kinney, 'Y Tonau' yn *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif*, gol. E.G. Millward (Llandybïe, 1991), 29–38.
- 29 Gw. Wiliam, *op. cit.*, 127. Nodir i Richard Parry ganu tair cân wasael ac fe'u ceir yn Cwrtmawr 200B. Ceir awgrym yn ei ganu gwasael o'i awydd i amddiffyn y traddodiad yn wyneb gwrthwynebiad y Methodistiaid.
- 30 Gw. BL Add 14929, f. 129a.
- 31 Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrisises of Anglesey*, i (London, 1947), 257.
- 32 Gw. Hugh Jones, *Diddanwch Teuluaid* (Caernarfon, 1735), 177.
- 33 *Ibid.*, 170.
- 34 Gw. E.G. Millward (gol.), *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif* (Llandybïe, 1991), 69–70.

D. EMLYN EVANS AC ALAWON EI WLAD¹

Delyth Morgans

'Ail yn unig i safle Cerddoriaeth y Cysegr oedd eiddo Cerddoriaeth Genedlaethol Cymru' yng nghalon D. Emlyn Evans. Dyna farn bendant ei frawd, E. Keri Evans.² Er na ellir gwadu mai yn nhraddodiad y cysegr yr oedd ei brif ddiddordeb, ymddiddorai Emlyn Evans hefyd yn alawon traddodiadol ei gyd-Gymry a chyfrannodd yn ymarferol i'r traddodiad canu gwerin yn nes at ddiwedd ei oes. Bwriad hyn o gyflwyniad yw ceisio edrych ar hyd a lled ei gyfraniad, gan fwrw golwg yn benodol ar ei ymwneud â'r Gymdeithas hon, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, ac â'r gyfrol swmpus, *Alawon fy Ngwlad*.



Delyth Morgans

Ond cyn mynd ymhellach, carwn ddweud ychydig eiriau am hanes y cerddor. Bachgen digon cyffredin a cherddor cwbl hunanddysgedig ydoedd a aned yn 1843 yn Nyffryn Teifi. Dilledydd ydoedd wrth ei alwedigaeth; ymddengys iddo fod yn weithiwr dygn, ond ymrodd yn ddyfal i sawl agwedd ar gerddoriaeth ei famwlad. Bu ystod eang o ddylanwadau ar Emlyn Evans, megis:

- Capel Trewen, capel yr Annibynwyr yn ystod ei fachgendod
- bwrlwm Bro Ogwr a brwdfrydedd 'Ieuan Gwyllt' pan oedd Emlyn yn ei ardegau
- y traddodiad eisteddfodol a chyngherddol
- awydd y cyfnod i gyhoeddi cylchgronau Cymraeg er mwyn codi safonau cerddorol y wlad
- yr angen dybryd hefyd am godi safonau caniaeth y cysegr yn ei ddydd

- yn ogystal â dylanwadau a ddaeth o'r tu hwnt i Glawdd Offa, yn sgil ei arhosiad mewn trefi megis Cheltenham, Amwythig a Henffordd

Er iddo fwrw'i wreiddiau yn ddwfn ym mro ei febyd (a'i ddychwelyd i Ddyffryn Teifi, i Landyfrïog i'w gladdu) roedd y profiadau a gafodd, yr amrywiol draddodiadau a brofodd, yn ogystal â'i ddycnwch i addysgu'i hun, yn fodd i sicrhau nad cyfansoddwr unllygeidiog mohono.

Bu hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod cynhyrchiol ym maes

casglu a chyhoeddi alawon traddodiadol, ond daeth ffurfiau'r emyn-dôn a'r unawd yn fwyaf arbennig yn boblogaidd yng nghyfnod Emlyn Evans. Heb os, roedd y pwyslais erbyn ail hanner y ganrif honno ar gynnyrch y cyfansoddwr. Roedd creu o'r newydd gyda'r gobaith o ddatblygu Cymru fel gwlad gerddorol yn ymddangos yn bwysicach ac yn hawlio mwy o sylw na chasglu a gwarchod y traddodiadau cynhenid. Yn hynny o beth, roedd y ddeuliaeth a berthynai i Emlyn Evans, sef ei ddawn i gyfansoddi a'i ddiddordeb ym maes cerddoriaeth draddodiadol, yn rhywbeth lled anghyfarwydd yn ei ddydd.

Cyfaddefodd Emlyn Evans droeon fod ymchwilio i hanes a datblygiad alawon traddodiadol yn un o'i hoff ddiddordebau. Ymddengys iddo feddu ar ddigon o amynedd, fel y dywedodd yn un o'i erthyglau i gylchgrawn *Y Cerddor*:

I'r hanesydd cerddorol ymchwilgar, neu i'r cerddor diwyd... nid oes efallai odid nemawr i beth a'i difyra yn fwy na haner awr



D. Emlyn Evans

gydag hen dônau ac hen alawon, er sylwi ar eu teithi, weithiau i wenu ar ei gwendidau syml a'u troion digrif, ac weithiau hefyd i edmygu eu dawn a'u naturioldeb.³

Nid yw'n syndod iddo fynd ati i gyflawni ymchwil o'r fath gan y teimlai i'r traddodiad gwerin gael ei esgeuluso'n fawr. Yn 1904, cyhoeddodd:

Judging from what has appeared in the Press, and, indeed, from personal experience also... some of us ourselves have but a hazy idea of our possessions in national folk-song.⁴

Yn ogystal â hyn, beirniadau'r Cymry am eu camdystiolaeth wrth olrhain hanes yr alawon brodorol. Fel ymchwilydd craff, gresynai nad oedd cerddorion a haneswyr y gorfennol wedi bod yn ddigon treiddgar:

Be it from indolence or ignorance, the laxity which is too characteristic of many of our native writers has been painfully apparent more than once in this direction. They follow each other "sheeplike", without any investigation, and without condescending to any correction...⁵

Yn ddi-os, un gymwynas werthfawr a wnaeth Emlyn Evans ar ran y traddodiad oedd cywiro ambell wall a wnaed yn hyn o beth. Ymddengys i honiad *Grove's Dictionary of Music and Musicians*⁶ mai Sais o'r enw Dibdin a gyfansoddodd y gainc draddodiadol 'Clychau Aberdyfi' hawlio sylw beirniadol Emlyn Evans, ac yn ei erthygl i *The Musical Times*, bu'n barod iawn i wrthbrofi hyn. Gwelir iddo roi pwys ar ystyriaethau ieithyddol a hanesyddol yn fwyaf arbennig:

No evidence whatever is brought forward in support of this ... If the song is Dibdin's, one would fain ask why this delay of sixty-six years in asserting its nationality, since it was published in Miss M. J. Williams's Welsh collection in 1844; and why has it not been included in some of the 'Songs of England' side by side with Dibdin's undoubted songs? Fortunately, the preservation of the words, doggerel though they are, provides us with strong internal evidence in support of its Welsh origin.⁷

Yn ogystal, beirniadau'r casgliadau Cymreig – cyfrolau John Parry ('Parri Ddall') ac Edward Jones ('Bardd y Brenin')⁸ – am eu diffyg cywirdeb. O ganlyniad, teimlir bod Emlyn Evans yn teimlo rhywfaint o gywilydd am mai ar gyfrolau o'r fath y dibynnai ymchwilwyr am dystiolaeth:

Y gwasanaeth angharedicaf ellir wneud i'r genedl yw nodiad fel un a geir yn y *Cambrian Minstrelsie* (Parry a Rowlands) ac a ddifynir yn Grove sydd yn hawlio fod "Nos Galan" "o leiaf rhwng 2,000 a 3,000 mlwydd oed." ⁹

Daeth erthyglau Emlyn Evans yn fodd i unioni sawl cam tebyg ac yn gyfrwng hwylus iddo leisio'i gri i'w gyd-Gymry fod yn fwy gwyliadwrs cyn cyhoeddi honiadau ar gefndir a thras alawon. Er iddo gynnwys rhai ysgrifau yn *Y Cerddor*, efallai mai yn ei golofn i'r *South Wales Weekly News* – colofn y bu'n ei chyflenwi o 1899 hyd at ganol 1912 – y canfyddir yr ymdriniaeth helaethaf ar y traddodiad gwerin. Awgryma hyn o bosib mai addysgu ac ennyn sylw'r Cymry di-Gymraeg a'r rhai nad oedd yn gyfarwydd â chyfoeth y traddodiad yng Nghymru oedd amcan ysgrifau o'r fath yn yr iaith fain.

Talodd Emlyn Evans dipyn o sylw i'r gymdeithas hon, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, yn ei erthyglau. Er na chafwyd fawr o gyffro ym maes cerddoriaeth draddodiadol yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, daeth tro ar fyd ar doriad gwawr yr ugeinfed ganrif ac ailennynwyd diddordeb y Cymry yn y maes. Dyma hefyd gyfnod sefydlu nifer o sefydliadau cenedlaethol fu'n ymgais bellach i warchod traddodiadau'r wlad – sefydliadau fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yn ogystal â Phrifysgol Cymru rai blynyddoedd ynghynt. Yn wir, yr un rhai fu'n llafurio er budd y sefydliadau hynny ag a fu'n ddiwyd gyda'r Gymdeithas Alawon Gwerin a sefydlwyd yn 1908. ¹⁰ Fel y dywed D. Roy Saer:

Nid damwain mai yn ystod y cyfnod 1906–08 yr esgorwyd arni hithau, a bod cynifer o'r gwladgarwyr a fu'n amlwg ym mhroses sefydlu'r Brifysgol, y Llyfrgell a'r Amgueddfa yn flaenllaw hefyd ynglŷn â'r Gymdeithas. ¹¹

Er na fu gan Emlyn Evans fawr o gyfraniad i ddatblygiad y sefydliadau hyn, yr oedd gan J. Lloyd Williams, ¹² un o gonglfeini'r Gymdeithas Alawon Gwerin, gysylltiad annatod â'r byd addysg. Ceir tystiolaeth i Emlyn Evans ohebu'n aml â'r Athro gwyddonol, a cheisiodd Emlyn Evans yn gynnar yn hanes y Gymdeithas ei argyhoeddi y byddai'n barod i sicrhau lle i weithgarwch y mudiad ar dudalennau *Y Cerddor*:

as I told you at Llangollen, I shall always be ready and pleased to do whatever I can for the movement, giving it all the hospitality

possible in the *Cerddor*. Your paper is in our next No.; and if any further papers (at any time) are sent in the first week of the month, I can assure it a place in our following month's issue.¹³

Er hyn, gwelir na chyhoeddodd Lloyd Williams ond un ysgrif rhwng cloriau *Y Cerddor* tra bu Emlyn Evans yn gyd-olygydd.¹⁴ Ymddengys mai cerddoriaeth gysegredig a gwyliau cerddorol ledled Cymru a Lloegr fu'n britho'r cylchgrawn, ac yn hytrach na thalu sylw i frwdfrydedd y cyfnod ym myd cerddoriaeth werin, roedd sylw Emlyn Evans a David Jenkins fel golygyddion yn fwy ar ddatblygu addysg gerddorol y wlad.

Bu cyswllt Emlyn Evans â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru a'i gyfraniad iddi'n ehangach o lawer na chyhoeddi ambell bwt o erthygl yn unig. Bu'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith o'r cychwyn, ac yn ôl J. Lloyd Williams:

the following persons were appointed a Provisional Committee to draw up a scheme to be presented to the first meeting of subscribers in Swansea, in August, 1907: Sir W.H. Preece, K.C.B., F.R.S.; Principal H.R. Reichel, M.A., LL.D.; Alfred Perceval Graves, Esq.; Rt. Hon. D. Lloyd-George, M.P.; W. Llewelyn Williams, Esq., M.P.; D. Emlyn Evans, Esq.; Robert Bryan, Esq.; E. Vincent Evans, Esq.; W.G. Thomas, Esq., J.P.; Rev. J.W. Wynne Jones, M.A.; R. Gwynedd Davies, Esq., J.P.; John Griffith, Esq., B.Sc.; Messrs J. Lloyd Williams and L.D. Jones (Llew Tegid), University College, Bangor, were appointed Secretaries pro. tem.¹⁵

O graffu ar y rhestr uchod, gwelir mai gwŷr dysgedig a chymwys oedd nifer o'r rhai y cydweithiai Emlyn Evans â hwy. Ni cheir nemor ddim tystiolaeth beth oedd cyfrifoldebau Emlyn Evans fel aelod o'r Pwyllgor hwn, ond ymddengys iddo fod yn weithgar gyda'r gwaith o baratoi cylchgrawn blynyddol y gymdeithas, *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*. Yn y rhifyn cyntaf, cyfrannodd sylwadau ar 11 o'r alawon traddodiadol a gyhoeddwyd, ac amlyga rhai o'r nodiadau hynny mor eang oedd ei brofiad a'i ddealltwriaeth o'r maes. Llwyddai i gymharu nifer o alawon â'i gilydd gan ddwyn i gof rhai alawon a glywodd yn gynharach yn ei oes, yn ogystal â darparu sylwadau manwl ar y nodweddion sy'n eu clymu ynghyd. Er enghraifft, wrth drafod yr alaw 'Llangollen Market', un o'r alawon cyntaf a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn, cyfeiria at alawon tebyg iddi:

The first half dozen bars as well as the first four of the second part are variants of the ‘Dyffryn Clwyd’ and ‘Gyda’r wawr’ class... The last phrase of part I., and the last two concluding phrases may be anything from anywhere... Again, instead of the distinguishing strain of ‘Torïad y Dydd’... we have a couple of phrases that are slightly reminiscent of that and of other tunes.¹⁶

Cyfaddefa er hynny fod yr alaw ‘Cwyd dy galon’ yn dôn anghyfarwydd iddo, ‘This air is quite new to me, and what I should call a good find.’¹⁷ Prinhau wnaeth ei gyfraniad i’r ail rifyn, ac ni welwyd un sylw o’i eiddo erbyn 1911. Ymddengys y bu’n rhaid i Mary Davies,¹⁸ Ysgrifenyddes y Gymdeithas, bwysu arno i gynnig ei sylwadau ar yr alawon. Dywedodd mewn llythyr at Emlyn Evans:

Dr Lloyd Williams tells me that you are too busy to be able to make any comments on the songs the above Society is intending to print in the first number of the W. Folk Song Journal. I do not like the idea of this first number going and without something from you, either in criticism or comment... If you can alter your mind and make a few notes, it would be very helpful to the Society.¹⁹

Y mae’n amlwg felly mai geiriau dylanwadol Mary Davies fu’n gyfrifol am ddwyn perswâd arno i gyfrannu nodiadau o’r fath i rifynnau cynharaf *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*.

Eto i gyd, mewn llythyr arall at J. Lloyd Williams, cynigodd Emlyn Evans ei wasanaeth i’r Gymdeithas, ac yn benodol cyhoeddodd ei fod yn barod i gynorthwyo gyda’r gwaith golygyddol. Mae’n bur debyg mai golygu’r *Cylchgrawn* oedd ganddo mewn golwg – ‘You may quite count upon my rendering any assistance, quasi-editorial or otherwise, you may wish, if within my power.’²⁰ Yn wir, ymddengys mai i ddwylo Emlyn Evans y rhoddwyd proflenni rhifyn cyntaf y *Cylchgrawn*, a hynny ym mis Mai 1909. Bryd hynny, bu Emlyn Evans yn darllen y deunydd â chrib fân, er iddo honni nad oedd ond wedi edrych yn frysiog drwyddo ddwywaith. Bu’n barod i argymhell sawl gwelliant a thynnwyd sylw at rai gwallau. Bu hefyd yn barod i gymhwyso ysgrif y Golygydd, J. Lloyd Williams, fel y dengys rhan o’r llythyr a ddyfynnir isod:

I think I would modify the statement re “exclusive harp music - great bulk without words” Editor’s Intro (P.2). For instance, Thompson’s, much of Bardd Alaw’s, and Dovaston’s entirely (with

four *Airs for Flute Solo at End*), contain words ... The word “foreign” conveys the idea of something outside the Kingdom generally, as you know. I don’t know whether *alien* would be better. I think you have the term “non-Welsh” in yr. *Cymmrodorion* paper.²¹

Yn y ddau achos, gwelir na chymerodd J. Lloyd Williams sylw o argymhellion Emlyn Evans a phan gyhoeddwyd y cyfnodolyn, cyfeiriwyd at gasgliadau gwerin y Cymry fel rhai ‘exclusively of harp music’ ac yn nes ymlaen, ‘the great bulk of it without words.’ Barnwyd hefyd mai estroniaid, ‘foreigners’, nid ‘alien’ nac ychwaith ‘non-Welsh’, oedd y mwyafrif o gasglyddion alawon gwerin yng Nghymru.²² Er i Emlyn Evans fod yn feiddgar i awgrymu cyfaddasu ysgrifau J. Lloyd Williams, bu yntau’n ddigon cadarn a diysgog i wrthsefyll beirniadaeth Emlyn Evans. Ceisiai Emlyn Evans yn ogystal ddarbwyllo Lloyd Williams na ddylai ruthro i drafod alawon o wledydd tramor, er bod ganddo ddealltwriaeth lawn o hanes a datblygiad y gân werin. Unwaith yn rhagor, gwelir bod tras alawon yn destun diddordeb arbennig i Emlyn Evans:

In regard to your query re native airs growing out of foreign reminiscenes, I think I would wait a while, in order to investigate the question and to think over it further. One thing is quite clear, that the old folk-songs took up parts of melodies. We must bear in mind that the ballad singer, and the fiddler or “crowder” who travelled to and fro, was generally ignorant and untrained, and therefore picked up at random anything he liked, or that suited him. The rule of commercial honesty in such matters too, seemed to differ in old times from what obtains now.²³

Eto i gyd, synhwyrir bod y berthynas rhwng Evans a Williams yn un ddigon cyfeillgar ac mae’n bur debyg nad oedd beirniadaeth a sylwadau Emlyn Evans yn ei waradwyddo. Yn sicr, roedd diddordeb didwyll y ddau yn ffurf yr alaw werin yn fodd i’w closio.

TREFNIANNAU O ALAWON CENEDLAETHOL

Daeth Emlyn Evans i'r amlwg fel un fu'n trefnu alawon traddodiadol y Cymry. Dangosodd flaengaredd fel golygydd cyfrolau o gerddoriaeth ac un fu'n trefnu darnau cerddorol, a hynny mewn mwy nag un maes. Bu'n ddiwyd yn ystod degawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn golygu casgliadau o emyn-donau.²⁴ Ymgwymerodd â thasg uchelgeisiol hefyd tua chanol yr 1880au pan aeth ati i drefnu'r oratorio Gymraeg gyntaf, *Ystorm Tiberias* o waith Edward Stephen ('Tanymarian') ar gyfer cerddorfa lawn.²⁵ Ym maes cerddoriaeth draddodiadol, alawon oedd wedi ennill eu plwyf fel ceinciau cenedlaethol yw sail y rhan fwyaf o drefniannau D. Emlyn Evans, sef alawon offerynnol ar gyfer y delyn yn bennaf ac i'w defnyddio naill ai fel rhan o grefft canu penillion neu fel ceinciau dawnsio traddodiadol – ceinciau fel 'Ar hyd y nos', 'Nos Galan', 'Clychau Aberdyfi' a 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn'.

Yn ystod y cyfnod a bontiai'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif y bu Emlyn Evans ar ei fwyaf diwyd yn trefnu alawon a cheinciau brodorol, a gwelir bod ymweliad y Frenhines Victoria â Palé ger Llandderfel ym mis Awst 1889 yn sbardun iddo drefnu cerddoriaeth o'r fath. Bryd hynny, trefnodd oddeutu ugain o alawon cenedlaethol ar gyfer côr cymysg, a chyhoeddwyd y casgliad hwnnw yn y gyfrol *Alawon Cymru*.²⁶ Llwyddai Emlyn Evans i drefnu'n effeithiol ar gyfer corau o'r fath – mae'r trefniannau yn ddigon syml ac elfennol, a dylid ei ganmol am beidio â chymhlethu'r alawon o gwbl yn y ffordd y defnyddiodd wead a chydysmud y lleisiau.

Ond efallai mai drwy gyfrwng ei drefniannau ar gyfer corau merched y daeth Emlyn Evans fwyaf i'r amlwg yn y maes hwn. Yn ôl tystiolaeth David Jenkins, bu'r trefniannau hyn yn symbyliad i sefydlu rhagor o gorau merched yng Nghymru:

yr oedd yn un o'r rhai cyntaf i drefnu Alawon Cymreig i leisau merched, – 'Clychau Aberdyfi', 'Llwyn Onn', 'Yr aderyn pur', 'Eos lais', 'Nos Galan'... Bu y trefniadau hyn, yn nghyda datganiadau côr merched Mrs. Novello Davies, yn foddion i ffurfio corau merched trwy y wlad...²⁷

Trefniannau ar gyfer corau merched o'r fath a geir yn y gyfrol *Treasury of Welsh Songs*²⁸ a cheir ynddi nifer o'r un alawon cenedlaethol a chyhoeddwyd eisoes ar gyfer corau SATB.

CASGLIAD O ALAWON GWERIN

Yn ogystal â threfnu a chynganeddu'r ceinciau cenedlaethol, treuliodd Emlyn Evans flynyddoedd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn trefnu'r alawon gwerin a gasglwyd gan Nicholas Bennett.²⁹ Ymddengys i Nicholas Bennett dreulio'i oes gyfan yn cywain dros 700 o alawon a chyhoeddwyd ffrwyth ei lafur – 504 o'r alawon hynny – yn y gyfrol *Alawon fy Ngwlad*.³⁰ Ar ysgwyddau Emlyn Evans y rhoddwyd y cyfrifoldeb o olygu'r gwaith a chynganeddu'r ceinciau, a'r dasg gyntaf a wnaeth oedd chwynnu'r alawon nad oedd yn gymwys i'w cyhoeddi yn y gyfrol. Bu'n barod iawn i roi'i resymau dros hepgor o leiaf 200 o'r alawon a gofnododd Nicholas Bennett:

These numbered about 700; but between those that were already published in other collections; reproductions or variants of the same air : or airs that belonged to other nationalities, etc., the total finally selected and published in that collection was 500.³¹

Roedd sicrhau purdeb casgliad o'r fath yn gofyn am gryn ymchwil, gwybodaeth eang a diddordeb brwd ym maes cerddoriaeth werin. Fel y mynega Keri Evans:

golygai dreth drom ar farn ac amynedd; ond yr oedd yn waith wrth ei fodd, yn unol â'i anianawd hanesyddol a'i serch at yr hen Gymry, ac ar yr un pryd yn rhoddi mantais iddo fod o wasanaeth i Gymry ieuainc. Gwnaeth ei waith â'i drylwyredd a'i ddestlusrwydd arferol...³²

Erbyn 1908, roedd Emlyn Evans yn dal i fod yn amheus o dras a chefnidir ambell alaw a gynhwyswyd yn y gyfrol, 'I felt doubtful about certain Airs that got admitted, "A ai di'r Deryn du" for instance – suspiciously like a well known chorus from Haydn's *Seasons*.'³³

Trefnwyd yr alawon gwerin ar gyfer y piano neu'r delyn yn ôl wynebdden y gyfrol ac ni chynhwyswyd rhan i'r llais nac ychwaith eiriau yn y Gymraeg nac yn Saesneg. Roedd hyn yn wendid mawr a bu nifer yn barod i fynegi eu siom am hyn, ac yn eu plith, J. Lloyd Williams. Synnai fod Emlyn Evans wedi trefnu cynifer o alawon heb gynnwys y geiriau – trefniannau yn ei dŷb ef a oedd yn bradychu'r traddodiad brodorol:

A dyna enghraifft ddiweddarach, a gwaeth fyth; Nicholas Bennett

yn cyhoeddi *Alawon fy Ngwlad*, – casgliad mawr o tua phum cant o alawon – heb gymaint â gair i’w ganu ar yr un ohonynt. A sut erioed y cytunodd Emlyn Evans, a ystyrid yn awdurdod ar alawon Cymru, â’r fath anfadwaith? Llawenydd digymysg i ni a fyddai gwneud heb yr un o drefniadau cynganeddol Emlyn pe caem yn eu lle eiriau gwreiddiol go dda o’r alawon.³⁴

Awgrymodd drachefn mai rhai fel Emlyn Evans fu’n gyfrifol fod cynifer o ganeuon gwerin wedi mynd i ddifancoll, ‘Gymaint ynteu a gollwyd – cannoedd o gerddi – oherwydd i Fardd Alaw [yn ei gyfrol *The Welsh Harper*] ac Emlyn Evans ysgaru’r geiriau wrth eu halawon priod.’³⁵ Yn wir, y mae amheuon Lloyd Williams yn ddigon dilys, oherwydd bu Emlyn Evans yn ei erthyglau ar y maes yn annog pobl yn gyson i gasglu geiriau’r traddodiad gwerin yn ogystal â’r alawon. Erbyn diwedd 1908, ceir awgrym iddo ddifaru na chynhwyswyd geiriau’r alawon yn *Alawon fy Ngwlad*, a chyhoeddodd mai da o beth fyddai i gasglyddion y dyfodol gofnodi’r farddoniaeth, waeth pa fath o eiriau oeddynt.³⁶ Eto i gyd, roedd hefyd yn eiddgar i gyfiawnhau hepgor y geiriau yn y gyfrol arbennig hon. Ymddengys mai cost a maint aruthrol y gyfrol fu’r rhwystr pennaf:

buasai i ychydig brofiad ac ystyriaeth ddangos nas gallasai fod felly, oddieithr gyda chyfrolau beichus o fawr, a mawr eu pris, yn ychwanegol at y ffeithiau digon dealedig, fod y mwyafrif o’r geiriau wedi myn’d i ddifancoll, ac fod y rhan fwyaf o’r ychydig oedd yn aros yn wasgaredig ac annghyflawn yma a thraw, yn ddichwaeth a diwerth.³⁷

Ond y mae’n gwbl amlwg nad llyfr i ddifyrru gwerin Gymreig y cyfnod oedd *Alawon fy Ngwlad*. Cyfrol a gyhoeddwyd ar gyfer Cymry uchel-ael y dydd ac wedi’i llunio’n benodol at ddefnydd Saeson oedd hon. Cynhwysa’r alawon deitlau Cymraeg a Saesneg, a darparwyd nodiadau ar delynorion a datgeiniaid canu penillion yn Saesneg, yn ogystal ag ysgrif gan Emlyn Evans yn esbonio craidd a hanfod cerdd dant – nodiadau manwl na fwriadwyd ar gyfer Cymry’r cyfnod.³⁸

Bu dylanwad Emlyn Evans ar y gyfrol orffenedig yn drwm, a cheir tystiolaeth iddo olygu a chymhennu’r alawon a gasglodd Nicholas Bennett. O gymharu’r fersiwn lawysgrifol sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth³⁹ â’r casgliad argraffedig, gwelir tystiolaeth y newidiwyd rhywfaint ar nodau rhai alawon ac enghraifft dda

o fersiwn olygedig ganddo yw'r alaw 'Ymgroes Gwen'.⁴⁰ Mae'r alaw gyhoeddedig yn cynnwys llai o neidiadau; petai'r trefniant ar gyfer y llais, gellid deall awydd Emlyn Evans i liniaru siâp yr alaw, ond ni wyddys pam y newidiodd fersiwn Nicholas Bennett – fersiwn y bu'r werin unwaith yn ei chanu. Ni cheir cysondeb yn nefnydd Emlyn Evans o farciau ailadrodd; weithiau hepgorir y rhai a nodwyd gan Bennett,⁴¹ a phryd arall ychwanega Emlyn Evans farciau lle na nodwyd hwy yn y llawysgrif.⁴² Ond nid dyna'n unig a wnaeth: newidiodd ffurf yr alawon gwerin wrth eu codi o'r llawysgrif i'r llyfr; hepgorwyd nifer o farrau mewn ambell enghraifft, fel 'Y cwper mwyn'⁴³ a 'Brig y brwyn',⁴⁴ ond efallai mai'r enghraifft amlycaf o hyn yw'r naw bar a adawyd allan yn ail hanner 'Dewch i'r dyffryn'.⁴⁵ Yn wir, mae ffurf yr alaw draddodiadol hon wedi'i gwyrddroi'n gyfan gwbl – yn hytrach nag alaw anghybwys ddwyran (8 bar a 17 bar) yn ei ffurf wreiddiol, ceir yma alaw ar ffurf ABA, gydag 8 bar i bob cymal. Er i Emlyn Evans fynd ati i newid cymaint ar ffurf a siâp yr alawon, mae'n syndod na cheir llawer o newid yn rhythmau ac amseriad y gerddoriaeth. Serch hynny, mynegodd yn eglur ar fersiwn llawysgrif y gyfrol fod ynddi alawon 'useless' a 'hopeless'. Un o'r rheiny yw 'Yr hên lewys gleision',⁴⁶ alaw a nodweddir gan rythm herciog, ac mae'n dra thebygol mai natur ei rhythm fu'n gyfrifol am iddi gael ei hepgor o'r gyfrol *Alawon fy Ngwlad*.

Synhwyrir na theimlai Emlyn Evans ei fod yn bychanu'r traddodiad wrth newid a 'chywiro' gymaint o'r alawon, a hynny oherwydd iddo ddatgan yn ddi-flewyn ar dafod:

Anyone having had experience in editing and arranging old melodies, transmitted orally, or noted down by non-expert copyists, will know that they must often be considerably trimmed in order to make them either presentable or practicable.⁴⁷

Awgrymodd wedi hynny nad yw'r sawl sy'n casglu'r alawon yn ddigon beirniadol, a'i fod yn dueddol o fod yn fyrbwyll ar adegau. O ganlyniad, mynnodd Emlyn Evans gyfiawnhau newid a golygu'r alawon brodorol a gasglodd Nicholas Bennett:

Those experienced in such undertakings [h.y. golygu alawon gwerin] need not to be told that the explorer in this field should be gifted with a retentive memory, and an extensive acquaintance with folk-tunes generally. The enthusiastic folk-song gatherer is

possibly given to be too credulous, and in his excitement and desire to secure a numerous collection prone to let his critical and discriminative faculties be in abeyance for the time.⁴⁸

Serch hynny, nid oes angen gwell tystiolaeth i Emlyn Evans fynd ati o fwriad i newid yr alawon na'r hyn a fynegodd yn ei ragair i'r gyfrol:

the musical Editor has spared no endeavour in order to arrive at a correct reading of the *Airs*. This often proved to be a very exacting task, arising from the many errors and variations which melodies transmitted orally, or copied by more or less untrained musicians are naturally subject to.⁴⁹

Honnodd D. Emlyn Evans hefyd yn ei ragair iddo lunio trefniannau syml, gan gadw'n ffyddlon i'r traddodiad gwerin:

attention has been paid to the well-known characteristics of our national folk-song. The ancient melodies of our native land being strictly diatonic, any attempt at elaboration, intricacy, or chromatic treatment would, in the writer's opinion, be out of place as well as ineffective.⁵⁰

Er iddo dystio na fyddai iaith harmonig gymhleth yn nodweddu'i drefniannau, y mae'n syndod fod cymaint o drawsgyweirio yn *Alawon fy Ngwlad*, a lliwiwyd sawl alaw gan gordiau cromatig megis cord y seithfed cywasg. Er i hanner cyntaf yr alaw 'Hoffder Gwenllian',⁵¹ er enghraifft, fod yn ddigon elfennol o safbwynt cynganedd, daw'r seithfed cywasg yn ogystal â seithfedau atodol eraill i'r amlwg tua'r cymal olaf.

Yn ddi-os, un o nodweddion amlycaf y trefniannau a geir yn *Alawon fy Ngwlad* yw dylanwad arddull cyfansoddi emyn-donau Emlyn Evans. Ni ellir osgoi ôl dylanwad ei donau cynulleidfaoel, er mai trefniannau offerynnol a geir yma. Gosodiadau cordiol a roddwyd i'r mwyafrif o alawon. Yn wir, gellir ystyried rhai ohonynt fel emyn-donau. Er i Emlyn Evans fod yn gwbl sicr ei farn y dylid cadw pob traddodiad cerddorol ar wahân, a hynny'n enwedig rhwng y cysegregatedig a'r seciwlwr, ymddengys na allai yntau godi wal ddiadlam rhwng traddodiad yr emyn-dôn a'r gân werin. Mae'n debyg mai'r nodwedd amlycaf yn y tebygrwydd a geir rhwng ei drefniannau a'i emyn-donau yw ei ddawn gynhenid i lunio llinell fas grefftus.

Ond y mae nodweddion eraill i'w canfod yng nghasgliad Nicholas Bennett – nodweddion sy'n cadarnhau mai ar gyfer y piano a'r delyn y lluniwyd y gwaith. Ymdrechir i argyhoeddi'r gwrandawr fod y gwaith yn gymwys ar gyfer y delyn a hynny drwy gyfrwng y cordiau toredig a'r *arpeggio* a geir mewn ambell ddarn megis 'Tre Cydweli',⁵² 'Yr hên dôn gam',⁵³ 'Hafotty Dafydd Owain'⁵⁴ ac 'Erddygan Rheinalt Glynderi'.⁵⁵ Daw dylanwad y piano yn ogystal i'r golwg drwy gyfrwng y marciau pedal cyson, ond efallai mai arwyddocâd pennaf y gwaith yw dylanwad cerddoriaeth glasurol y dydd. Ceir marciau tempo a dynameg ynghlwm wrth bob alaw, a'r rheini'n ddi-ffael yn dermau Eidaleg – *allegro*, *andante a moderato*, ac yn y blaen. O gofio brwdfrydedd Emlyn Evans ym maes cerddoriaeth werin a'i gynefindra â'r traddodiad, y mae'n syndod iddo ddefnyddio marciau o'r fath. Eto i gyd, profa hyn ymhellach mai ar gyfer cerddorion o'r tu hwnt i Gymru y trefnwyd yr alawon yn y fath fodd. Cynhwyswyd cyfarwyddiadau tebyg yn *Treasury of Welsh Songs*, ond efallai mai'r syndod pennaf yw'r ffaith iddo gynnwys marciau *metronome* yn y gyfrol honno. Gwnaeth hyn er iddo gyhoeddi'n ddigyfaddawd yn *Y Cerddor* ym mis Chwefror 1900 nad yw'n briodol i bennu amser ar gyfer emyn-donau na ffurfiau cyfarwydd eraill:

Derbyniwn geisiadau yn awr ac yn y man, am i ni gyflenwi yr ysgrifenyddwr â'r hyn a farnwn fyddai yr amser priodol yn ol y *metronome*, i ryw dôn neu dônau cynulleidfaoel o'n heiddo; ond gyda phob awydd i gynorthwyo ein cyfeillion, yr ydym yn methu cydsynio â cheisiadau felly. Ni fyddwn byth yn rhoddi ffigyrau yr amser-fesurydd, hyn yn nôd wrth gyfansoddiadau mewn ffurfiau mwy dadblygedig – megys y rhangan, yr anthem, a'r gydgan, &c, o herwydd gall yr amgylchiadau dan ba rai y byddir yn eu canu amrywio cymaint...⁵⁶

Cyfeiriwyd at Emlyn Evans unwaith fel 'yr awdurdod uchaf a feddwn ar ein hen halawon'.⁵⁷ Does dim dwywaith nad oedd ei ddiddordeb ysol a'i gyfraniad i'r maes yn ddiarhebol, ond oherwydd nad cerddoriaeth werin y Cymry a hawliai ei sylw blaenaf, ni ellir gosod Emlyn Evans yn yr unrhyng â chewri'r Gymdeithas Alawon Gwerin y cyfeiriwyd atynt eisoes – J. Lloyd Williams a Mary Davies – ac eraill fel Ruth Herbert Lewis⁵⁸ a Grace Gwyneddon Davies.⁵⁹ Er na fu gan Emlyn Evans erioed brofiad fel casglwr alawon gwerin, y mae'n amlwg mai ei gyfraniad pennaf fu

poblogeiddio alawon a cheinciau'r traddodiad Cymreig. Ers dyddiau sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif – cymdeithas sy'n amlwg yn ceisio gwarchod y traddodiad canu gwerin yn ei ddull cysefin – mae'n bur debyg nad yw trefniannau Emlyn Evans wedi bod yn gymwynas ddiledryw ym marn pawb. Er iddo yntau fod yn amlwg yng ngweithgareddau'r gymdeithas, mae'n siŵr hefyd yr ofnai rhai y byddai'n mabwysiadu'r un agwedd â cherddorion proffesiynol y dydd drwy gymhwyso a chyfaddasu alawon gwerin sef, yng ngeiriau J. Lloyd Williams, 'they will be of no value until a "musician" takes them in hand, and polishes away their crudities'.⁶⁰

Eto i gyd, ni ellir ei feirniadu'n rhy llym am iddo drefnu alawon yn y fath fodd fel eu bod wedi ennyn sylw a diddordeb rhai o'r tu hwnt i'r ffin. Yn wir, ymgais i barchuso ceinciau'r traddodiad Cymreig oedd cyfrol fel *Treasury of Welsh Songs*, a gwelir hefyd mai alawon y Cymry wedi'u gwisgo mewn arddull newydd, soffistigedig sydd yn *Alawon fy Ngwlad*. Fe ellir gweld tebygrwydd yn hyn o beth i waith Brinley Richards, *The Songs of Wales*,⁶¹ ond dylid pwysleisio bod cefndir, addysg a diddordebau cerddorol y ddau gymeriad yn rhai gwahanol iawn.⁶² Gellir yn ogystal gymhwyso geiriau A.J. Heward Rees yn ei ysgrif ar gyfrol Brinley Richards i waith Emlyn Evans ym maes cerddoriaeth draddodiadol:

Gall puryddion gecru ac efallai y bydd ethnogerddoregwyr yn taranu ond, fel casgliad, mae'n wir yn *sui generis* ac, yr un pryd, yn gynnyrch cwbl nodweddiadol o'i gyfnod a'i drefnydd.⁶³

Canmoliaeth yn unig a rydd y cerddor Daniel Protheroe i drefniannau Emlyn Evans o'r alawon a gasglodd Nicholas Bennett. Teimlir, fodd bynnag, fod yma ormodiaith ac nid yw sylwadau o'r fath yn adlewyrchiad o farn gyffredin y Cymry:

Ni chredai Emlyn mewn gorwisgo ein hen alawon ... trefnai Emlyn hwynt gyda chynganeddion cyfaddas, – cynghanedd a gyfranogai o anianawd a theithi y felodi, nes byddai'r cwbl yn ymddangos yn eu prydferthwch cynhenid, heb yr un andwyaeth oddiwrth ribanau celfyddyd.⁶⁴

Er nad oedd yr iaith gerddorol a ddefnyddiodd Emlyn Evans yn arloesol, eto i gyd yn wyneb diffyg cyfansoddwyr eraill a oedd â diddordeb ym myd canu brodorol Cymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yn gymwynaswr o'r radd flaenaf.

NODIADAU

- 1 Traddodwyd y papur hwn yng Nghwrs Preswyl Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Tregaron, 29 Medi 2002.
- 2 E. Keri Evans, *Cofiant D. Emlyn Evans* (Lerpwl, 1919), t. 161.
- 3 D. Emlyn Evans, 'Awduraeth Hen Donau', *Y Cerddor*, Cyfrol 3, Rhif 31, Gorffennaf (Wrexham, 1891), t. 73.
- 4 Llawysgrif LIGC 8034D: 'Music in Wales', Cyfrol 2, erthyglau wythnosol D. Emlyn Evans i'r *South Wales Weekly News*, 22.2.1904.
- 5 Llawysgrif LIGC 8033D: 'Music in Wales', Cyfrol 1, 29.9.1900.
- 6 George Grove (gol.), *Dictionary of Music and Musicians*, Cyfrol 1 (London, 1899), tt. 442–4. Ymddengys mai gŵr o'r enw William H. Husk a ysgrifennodd y cofnod hwn ar Charles Dibdin.
- 7 D. Emlyn Evans, 'The New "Grove" on Welsh Music', *The Musical Times*, Cyfrol 51, Rhif 813, Tachwedd (London, 1910), tt. 711–12.
- 8 John Parry ac Evan Williams, *Antient British Music* (London, 1742), John Parry, *British Harmony* (London & Ruabon, 1781); Edward Jones, *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* (London, 1784).
- 9 D. Emlyn Evans, 'Dilysrwydd ein halawon cenedlaethol', *Y Cerddor*, Cyfrol 23, Rhif 269, Mai (Wrexham, 1911), t. 45.
- 10 Ymddengys i baratoadau ar gyfer sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru wreiddio yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1906. Fodd bynnag, yn ôl un o'r papurau sy'n olrhain hanes y Gymdeithas, taflen a ddosbarthwyd o bosib gydag un o'i Hadroddiadau Blynnyddol, 'cynhaliwyd y cyfarfod "gwirioneddol ac effeithiol" cyntaf ... yn Llangollen yn 1908.'
- 11 D. Roy Saer, 'Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 1908–1983', *Welsh Music*, Cyfrol 7, Rhif 6, Gwanwyn–Haf (Dinbych, 1984), t. 22.
- 12 John Lloyd Williams (1854–1945), gŵr o Lanrwst a ymddiddorai'n fawr mewn Gwyddoniaeth ac a arbenigai ym myd botaneg. Derbyniodd addysg yn y Coleg Normal ym Mangor, a bu'n darlithio ar feysydd gwyddonol ym Mhrifysgol Cymru Bangor ac Aberystwyth, cyn cael ei benodi'n Athro yn Aberystwyth yn 1915. Eto i gyd, fel cerddor y cofir amdano'n bennaf, ac yn enwedig trwy'i waith yn ymwneud â phob agwedd o gerddoriaeth werin – yn casglu, yn trefnu ac yn ysgrifennu am y maes.
- 13 Llawysgrif LIGC Casgliad J. Llywelyn Williams 58: Llythyr oddi wrth D. Emlyn Evans at J. Lloyd Williams, dyddiedig 28.10.1908.
- 14 J. Lloyd Williams, 'Cymdeithas Alawon Gwerin. Adroddiad yr Ysgrifenydd Cerddorol yn Eisteddfod Llangollen', *Y Cerddor*, Cyfrol 20, Rhif 239, Tachwedd (Wrexham, 1908), tt. 120–1. Cyhoeddwyd hefyd ei feirniadaeth ar gasgliad o alawon gwerin a gynhaliwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bae Colwyn, 1910, yn Nghyfrif 23, Rhif 266, Chwefror 1911, t. 17.

- 15 J. Lloyd Williams, 'The History of the Welsh Folk-Song Society', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyfrol 3, Rhif 10 (Dinbych, 1934), t. 93.
- 16 'Llangollen Market', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyfrol 1, Rhif 1 (Dinbych, 1909), tt. 23–4.
- 17 'Cwyd dy galon', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyfrol 1, Rhif 1 (Dinbych, 1909), tt. 31–2.
- 18 Mary Davies (1855–1930), un o Gymry Llundain, a merch i William Davies ('Mynorydd'). Tyfodd yn gantores broffesiynol ac yn wraig ddiwyd ym maes alawon traddodiadol Cymru. Fe'i hetholwyd yn un o ysgrifenyddion cyntaf Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.
- 19 Llawysgrif LIGC 8032B: Llythyr oddi wrth Mary Davies, Hampstead at D. Emlyn Evans, d.d.
- 20 Llawysgrif LIGC Casgliad J. Lloyd Williams 58: Llythyr oddi wrth D. Emlyn Evans at J. Lloyd Williams, dyddiedig 28.10.1908.
- 21 Llawysgrif LIGC Casgliad J. Lloyd Williams 58: Llythyr oddi wrth D. Emlyn Evans at J. Lloyd Williams, dyddiedig 25.5.1909.
- 22 J. Lloyd Williams, 'Editor's Introduction', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyfrol 1, Rhif 1 (Dinbych, 1909), t. 15.
- 23 Llawysgrif LIGC Casgliad J. Lloyd Williams 57: Llythyr oddi wrth D. Emlyn Evans at J. Lloyd Williams, dyddiedig 19.4.1909.
- 24 *Y Salmydd* (Llandeilo, 1892); *Y Caniedydd Cynulleidfaoel* (Llundain, 1895); *Caniedydd yr Ysgol Sul* (Llundain, 1899); *Llyfr Tonau ac Emynau y Wesleyaid* (Llundain, 1904).
- 25 Edward Stephen, *Ystorm Tiberias* (Dolgellau, 1886). Golygwyd gan D. Emlyn Evans a J. Horatio Johnes.
- 26 D. Emlyn Evans (trefn.), *Alawon Cymru* (Treherbert, 1889).
- 27 David Jenkins, 'Marwolaeth Mr. D. Emlyn Evans', *Y Cerddor*, Cyfrol 25, Rhif 294, Mehefin (Wrexham, 1913), t. 60.
- 28 D. Emlyn Evans (trefn.), *Treasury of Welsh Songs* (London, 1909).
- 29 Nicholas Bennett (1823–1899), cerddor o Lanyrafon ger Trefeglwys yn sir Drefaldwyn. Roedd yn aelod o deulu cymharol gefnog, a daeth i'r amlwg fel noddwr hael i'r celfyddydau Cymreig. Dangosodd ddiddordeb mewn llenyddiaeth Gymraeg, ond caneuon gwerin oedd ei gariad cyntaf yn ddi-os.
- 30 Nicholas Bennett, *Alawon fy Ngwlad* (Newtown, 1896).
- 31 Llawysgrif LIGC 8035D: 'Music in Wales', Cyfrol 3, 1.2.1908.
- 32 E. Keri Evans, *op.cit.*, t. 163.
- 33 Llawysgrif LIGC Casgliad J. Lloyd Williams 58: Llythyr oddi wrth D. Emlyn Evans at J. Lloyd Williams, dyddiedig 28.10.1908.
- 34 J. Lloyd Williams, *Y Tri Thelynor* (Llundain, 1945), t. 23.

- 35 *Ibid.*, t. 65.
- 36 Llawysgrif LIGC 8036D: 'Music in Wales', Cyfrol 4, 14.11.1908.
- 37 D. Emlyn Evans, 'Alawon heb eiriau', *Y Cerddor*, Cyfrol 21, Rhif 241, Ionawr (Wrexham, 1909), tt. 1–2.
- 38 'Pennillion singing', *Alawon fy Ngwlad* (Newtown, 1896), tt. I–IV. (Cyhoeddwyd fel atodiad yng nghefn y gyfrol.)
- 39 Llawysgrif LIGC 1213E: 'Alawon fy Ngwlad' (copi llawysgrif).
- 40 'Ymgroes Gwen', *Alawon fy Ngwlad* (Newtown, 1896), t. 96.
- 41 Enghreifftiau yw 'Codiad yr hedydd mawr', *ibid.*, t. 44, 'Per oslef fach (2)', *ibid.*, t. 79, a 'Glwysen', *ibid.*, t. 139.
- 42 Sylwer bod 'Ymgroes Gwen', *ibid.*, t. 96 yn enghraifft o alaw y mae Emlyn Evans wedi ychwanegu marciau ailadrodd ati.
- 43 'Y cwper mwyn', *ibid.*, t. 122.
- 44 'Brig y brwyn', *ibid.*, t. 141.
- 45 'Dewch i'r dyffryn', *ibid.*, t. 138.
- 46 Llawysgrif LIGC 1213E: 'Alawon fy Ngwlad' (copi llawysgrif).
- 47 Llawysgrif LIGC 8033D: 'Music in Wales', Cyfrol 1, 31.3.1900.
- 48 Llawysgrif LIGC 8036D: 'Music in Wales', Cyfrol 4, 27.3.1909.
- 49 'Editorial Note', *Alawon fy Ngwlad* (Newtown, 1896), t. iv.
- 50 *Ibid.*, t. iv.
- 51 'Hoffder Gwenllian', *ibid.*, t. 13.
- 52 'Tre Cydweli', *ibid.*, t. 61.
- 53 'Yr hên dôn gam', *ibid.*, t. 62.
- 54 'Hafotty Dafydd Owain', *ibid.*, t. 11.
- 55 'Erddygan Rheinallt Glynderi', *ibid.*, t. 88.
- 56 D. Emlyn Evans, 'Amseriad Tonau Cynulleidfaol', *Y Cerddor*, Cyfrol 12, Rhif 134, Chwefror (Wrexham, 1900), tt. 9–10.
- 57 'D.J.', 'Llyfrau ar fin eu cyhoeddi', *Cymru*, Cyfrol 10 Rhif 55, Chwefror (Caernarfon, 1896), t. 115. Cyfeiria J. Lloyd Williams hefyd ato fel un 'a gyfrifid ar un adeg y prif awdurdod ar alawon cenedlaethol Cymru'. Gweler *Y Tri Thelynor* (Llundain, 1945), t. 65.
- 58 Ruth Herbert Lewis (1871–1946), brodor o Lerpwl fu'n byw am y rhan fwyaf o'i hoes yn Llundain a Chaerwys. Dangosodd ddiddordeb brwd mewn cerddoriaeth, yn arbennig felly mewn cerddoriaeth werin, ac yn ôl E.D. Jones, daeth yn 'un o arloeswyr cofnodi alawon gwerin Cymru, cefnogydd mudiadau addysgol, crefyddol, dirwestol a dyngarol'. Gweler *Y Bywgraffiadur Cymreig 1951–1970* (Llundain, 1997), t. 277.

- 59 Grace Gwyneddon Davies (1879–1944), brodor arall o lannau Mersi. Derbyniodd hyfforddiant ar y piano yn yr Academi Gerdd yn Llundain; yna troes yn gantores broffesiynol. Daeth hefyd yn un o gymwynaswyr amlycaf y traddodiad canu gwerin yng Nghymru, gan ymroi'n ddyfal i weithgarwch Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.
- 60 J. Lloyd Williams, 'The Welsh Folk Song Society', *The Welsh Outlook*, Cyfrol 15, Rhif 8, Awst (Newtown, 1928), t. 217.
- 61 Brinley Richards, *The Songs of Wales* (London, 1873). Ceir yn y gyfrol ddetholiad o geinciau Cymreig wedi'u trefnu ar gyfer unawdydd a chyfeiliant piano. Cynhwysir hefyd osodiadau o alawon gwerin a gasglodd Maria Jane Williams ar gyfer ei chyfrol *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (Llandovery, 1844).
- 62 Henry Brinley Richards (1817–1855), cerddor o dref Caerfyrddin a gafodd addysg yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain, yn ogystal ag ennill ysgoloriaeth i astudio'r piano ym Mharis. Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr yr Academi ymhen amser, a daeth yn un o gerddorion disgleiriaf y cyfnod – fel pianydd, beirniad, cyfansoddwr ac un fu'n trefnu cerddoriaeth Gymreig yn benodol.
- 63 A.J. Heward Rees, 'Henry Brinley Richards (1817–1885): Propagandydd dros Gerddoriaeth Gymreig o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, Rhif 2 (Caerdydd, 1997), tt. 205–6.
- 64 E. Keri Evans, *op.cit.*, t. 163. Dyfynnir sylwadau'r Dr Daniel Protheroe.



Llan Eglwys Llanrhaeadr-ym-Mochnant gan John Thomas, Lerpwl. Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru

DYDDIADUR Y PLYGAIN

Rhiannon Ifans

Mae bri mawr ar y plygeiniau y dyddiau hyn. Rhag ofn yr hoffai darllenwyr *Canu Gwerin* ymuno â'r addolwyr lleol yn rhai o wasanaethau'r tymor sy'n dod, awgrymaf isod rai dyddiadau i'w cadw mewn cof.

Cynhelir rhai plygeiniau ar ddyddiad sefydlog bob blwyddyn, oni bai fod y dyddiad hwnnw yn syrthio ar ddydd Sadwrn, neu efallai ddydd Sul, er enghraifft cynhelir plygain Llanymawddwy ar 6 Ionawr bob blwyddyn. Cynhelir plygeiniau eraill ar noson benodol o fewn y mis, er enghraifft y drydedd nos Iau ym mis Rhagfyr yn achos plygain Penrhyn-coch. Mae plygeiniau eraill eto yn cadw'r ddwy egwyddor uchod mewn cof, ac yna'n ceisio pennu dyddiad didramgwydd o fewn y canllawiau uchod ar gyfer eu plygain hwy, gan osgoi dyddiadau'r plygeiniau sefydlog.

Mae'n bwysig dros ben eich bod yn cysylltu ymlaen llaw â rhywun lleol, neu efallai â golygydd y papur bro, cyn mentro i blygain. Canllawiau yn unig a nodir isod, a gall amgylchiadau lleol yn hawdd beri bod noson y blygain yn wahanol i'r disgwyl ambell flwyddyn.

Rhagfyr

Sul cyntaf Rhagfyr

Sul cyn y Nadolig

Ail nos Fawrth yn Rhagfyr

Trydedd nos Fawrth yn Rhagfyr

Trydedd nos Iau yn Rhagfyr

Trydedd nos Wener yn Rhagfyr

Nos Wener ola'r flwyddyn

Ionawr

Sul cyntaf y flwyddyn

Nos Iau gyntaf y flwyddyn

Capel Moreia, Llanfyllin

Penuel, Bedw Gwynion, Llangynyw

Briw, yn ardal Llangedwyn

Y Trallwng

Parc, Y Bala

Penrhyn-coch

Llanidloes

Pen-y-bont-fawr

Cefnblodwel

Llanerfyl

Llanrhaeadr-ym-Mochnant

Pennarth

Ail nos Sul y flwyddyn	Llanfihangel-yng-Ngwynfa
	Gwaelod-y-garth
Ail nos Iau y flwyddyn	Tal-y-llyn
6 Ionawr	Llanymawddwy
8 Ionawr	Darowen
nos Wener yr wythnos lawn gyntaf	Seilo, Llanfair Caereinion
13 Ionawr	Mallwyd
nos Fawrth olaf cyn 2 Chwefror	Llangynwyd

Fel y gwelwch o'r rhestr hon yn unig, fe gynhelir mwy nag un blygain ar yr un noson, ac y mae'r rhestr uchod ymhell o fod yn rhestr gyflawn o holl wasanaethau plygain Cymru. At hynny, wrth gwrs, mae plygeiniau newydd yn cael eu sefydlu o flwyddyn i flwyddyn. Os gwyddoch am blygeiniau nad ydynt ar y rhestr uchod, anfonwch air atom os gwelwch yn dda, er mwyn inni fedru eu hychwanegu at y rhestr erbyn y flwyddyn nesaf: fe fydd darllenwyr *Canu Gwerin* yn falch o dderbyn pob gwybodaeth.

Ar gyfer y tymor plygeiniau eleni fe gyhoeddir cyfrol o garolau addas i'w canu yn y plygeiniau a'r gwasanaethau Nadolig. Mae'n gasgliad o ddau ddwsin o garolau, llawer ohonynt wedi eu codi o'r hen lawysgrifau ac wedi eu cyfansoddi gan wŷr a oedd yn hen law ar y grefft. Priodir y geiriau ag alawon o'r un cyfnod, ac mae'n amlwg fod llawer o ganu wedi bod arnynt yn eu dydd. Ni chadwyd y trefniannau i gyd, fodd bynnag, ac felly fe drefnwyd llawer ohonynt o'r newydd ar gyfer y cyhoeddiad hwn, ar gyfer tri neu bedwar llais ran amlaf. Ond mae yn y gyfrol hefyd amryw garolau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a dechrau'r ganrif ddiwethaf.

Carol afaelgar iawn o waith John Williams o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a gyhoeddir yma, yn flas o'r cyfoeth a fu. Gweinidog gyda'r Bedyddwyr oedd John Williams ac fe ddefnyddiai'r gerdd at bwrpas proffesiynol, mae'n debyg. Pwysleisir natur yr aberthau ym mhennill 3, gan lawenhau yn y neges fod goruchwyliaeth Lefiticus yn dod i ben, a'r oruchwyliaeth newydd yn cymryd drosodd.

Un o feibion y gwehydd Thomas Williams 'Eos Gwynfa' oedd John Williams. Ganed Thomas Williams yn Tŷ-ffwrn, Llanfihangel-yng-

Ngwynfa, a bu'n byw yn Tŷ-uchaf, Pontysgadarn, Llanfihangel, am y rhan fwyaf o'i oes. Cyhoeddodd bum cyfrol o farddoniaeth. Dyma ddau wr, yn dad a mab, a fu'n bwysig iawn yn hanes crefyddol yr ardal.

Difyrrwch Gwŷr Caernarfon

Trefniant: Rhiannon Ifans



Mesur: Difyrrwch Gwŷr Caernarfon

1

Dyrchafwn glod i'r Iesu glân, rhown fawl ar gân i gyd,
 I godi dyn daeth Ceidwad da i barthau isa'r byd;
 Er dyddiau tragwyddoldeb maith roedd ar ei daith yn dod
 I dreulio ei fywyd hyd ei fedd mewn rhinwedd tan y rhod,
 Ac yng nghyflawnder amser Iôr i esgor ar ei Air
 Fe wisgai amdano natur dyn ym mru y Forwyn Fair.

2

Ac ar ei enedigaeth ef angylion nef yn un
 Oedd yn anthemu, clymu clod, i'r Duwdod yn y dyn;
 Dechreuai'r angel Gabriel gu i'r Iesu wiwgu gân,
 A chyda'r angel lliaws oedd o luoedd nefoedd lân:
 'Boed yn y goruchafion gwiw ogoniant i Dduw nef,
 I ddynion wyllys da ar goedd,' yn llafar oedd eu llef.

3

Yn rhôl y llyfyr, eglur yw, y daeth Mab Duw ar daith
 Ac felly roedd, er a allai neb, a'i wyneb ar ei waith;
 Diflannodd holl aberthau'r byd, pob cysgod hefyd aeth
 O flaen y Sylwedd mawr ei hun, rhoes derfyn pan y daeth;
 O'r eidion hyd yr adar bach fydd bellach i gael byw,
 Tros bawb a gred trwy'r ddaear gron mae digon yn Oen Duw.

4

Roedd drwg ysbrydion, hyllion haid, yn danbaid am bob dyn,
 Meddiannu llawer yn ddiau roedd llengau'n ddrwg eu llun;
 Y llengau ffaidd oedd yn ffoi, rhaid iddynt droi yn drist,
 Yn gwylltio a syrthio dan y sêr gan nerthoedd cryfder Crist;
 Ymddarostyngodd Crist o'i fodd, agweddodd megis gwas,
 I achub dynion cleifion, clyw, o ddynol-ryw, o'i ras.

5

A chyda'i waith ar daith bob dydd ein Harglwydd oedd o hyd
 Yn rhannu o'i ras i ddynol-ryw tra bu fe'n byw 'n y byd.
 Ca'dd gwywedigion, cloffion cla', a'r dalla', olau dydd,
 Fe welwyd llawer ar y llawr o'u rhwymau mawr yn rhydd;
 Yn gwneud daioni hyd ei oes o'r beudy i'r groes bu Crist,
 Ar honno ei hoelio yno wnaed, ei ddwylo a'i draed, yn drist.

6

Roedd cosbedigaeth, helaeth oedd, i filoedd arno fe,
 Croeshoeliwyd, poenwyd Iesu pur, mewn llafur yn ein lle;
 Roedd deddf a'i gofyniadau maith yn berffaith wrth ei bodd,
 A'i holl uniondeb yn ei nerth trwy werth yr aberth ro'dd;
 Fe ga'dd cyfiawnder eithaf iawn a Duw yn foddllawn fydd,
 A phawb a gredant ynddo fe gânt ddod o'u rhwymau'n rhydd.

7

Gorchfygodd uffern fawr ei llid pan yn ei ofid mawr,
 A'r haul a dduodd uwch ei ben, a rhwygai'r llen i'r llawr;
 Y ddaear grynodd, holltodd hon, cymylau duon ddaeth
 Pan oedd yn dioddef, Iesu da, ar ben Golgotha'n gaeth;
 Gorffennodd dalu dri o'r gloch a'i wisg yn goch mewn gwaed,
 A llwyr fodloni yno ar goedd y nefoedd fawr a wnaed.

8

Aeth Iesu hael yn wael ei wedd i'r bedd oddi ar y bryn,
 Ond borau'r trydydd ddedwydd ddydd fe ddaeth yn rhydd, er hyn,
 Ac ennill buddugoliaeth lawn ar angau'n iawn a wnaeth,
 Fe fethodd maen a milwyr, do, ei gadw yno'n gaeth;
 Er ingoedd dwys yr angau du daeth Iesu i fyny'n fyw,
 Ac agoriadau beddau'r byd sydd hefyd gan fy Nuw.

9

Gyd-bechaduriaid, ato dewch! O trowch a ffowch trwy ffydd!
 Danteithion breision ger eich bron yn Seion i chwi sydd;
 Esgynnodd ar ddeheulaw Duw, bydd byth yn byw heb boen,
 A'i holl was'naethwyr ar ei wedd trwy rinwedd gwaed yr Oen;
 Boed llwyddiant i Efengyl gu ein Iesu is y nen!
 Doed pawb i gred, y byd yn grwn, O molwn ef! Amen.


John Williams (c. 1850)

‘A’R BYD I GYD YN BAPUR . . .’

RHAN 2: TOPOS YR ANHRAETHADWY*

E. Wyn James

Fel y nodwyd yn rhan gyntaf yr erthygl hon, pennill gan Dafydd William, Llandeilo Fach (a gyhoeddwyd tua 1786) ac un gan Hywel Gruffydd, Beddgelert (a gyhoeddwyd yn 1826) yw’r unig benillion emynau Cymraeg y gwn i amdanynt sy’n cynnwys y fformwla hynafol sy’n sôn am y byd neu’r nef yn bapur a’r môr yn inc (ac eithrio rhai cyfieithiadau y dychwelwn atynt yn y man). Dyma’r ddau bennill:



E. Wyn James

Pe byddai’r moroedd mawrion

Yn inc o’r dua’i liw,

A’r tywod dirifedi

I gyd yn ddynion byw,

A’r byd i gyd yn bapur,

Pob un â’i ’sgriflen bin,

Ni allent gynnwys cariad

Yr Oen fu ar y bryn.

Dafydd William, Llandeilo Fach

Pe byddai gwellt y ddae’r yn binnau,

A’r môr yn inc o’r dua’ ei liw,

A’r nefoedd faith i gyd yn bapur,

A’r tywod mân yn ddynion byw,

A phawb yn ysgrifennu yn hoyw,

Yn rhoddi’n loyw eiriau i lawr,

Ni thraethant byth werth etifeddiaeth

’R un o blant yr arfaeth fawr.

Hywel Gruffydd, Beddgelert

Maent yn amlwg yn annibynnol ar ei gilydd. Y byd yw'r papur yn y naill; y nefoedd yn y llall – amrywiadau sydd i'w cael i lawr trwy'r canrifoedd, oddi ar yr esiampiau cynharaf o'r fformwla sydd ar glawr, mewn ysgrifeniadau Sansgrit yn yr India dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Y cwestiwn amlwg, wrth gwrs, yw sut y cyrhaeddodd y rhain emynyddiaeth Gymraeg y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymtheg. A rhaid pwysleisio ar ein hunion mai ym myd dyfalu y byddwn wrth geisio ateb y cwestiwn.

Ffurf ar yr hyn a alwodd E.R. Curtius yn '*topos of inexpressibility*' – 'topos yr anhraethadwy' – yw'r fformwla am y byd/nef yn bapur a'r môr yn inc.¹ Ceir ffurfiau amrywiol ar y topos hwn yma a thraw mewn llenyddiaeth Gymraeg o'r cyfnod cynharaf, ac yn enwedig mewn llenyddiaeth grefyddol a llên serch. Yn wir, fe geir ffurf arno yn y darn hynaf o farddoniaeth grefyddol Gymraeg sydd ar glawr, 'Naw Englyn y Juvencus', a gopiwyd yn hanner cyntaf y ddegfed ganrif yn ôl pob tebyg, ond a allai fod wedi'i gyfansoddi dipyn cyn hynny. Dyma addasiad o englynion agoriadol y gyfres:

Omnipotens auctor, ti digones bob peth,
Nid archub Bedydd i gywydd ganlau,
Cyd treithyn gwellt a gwŷdd . . .

Digones pater a ryfedd presen;
Ys afrwydd ei gynifer;
Nis achub, nid archub llyther.

Gellir eu haralleirio fel a ganlyn:

Hollalluog Greawdwr, ti a wnaeth bob peth:
ni all y byd Cristnogol roi mewn cerdd gelfydd
ryfeddodau Duw, er i laswellt a choed draethu . . .

O ryfeddodau y gwnaeth y Tad y byd:
anodd cael ei gyffelyb,
ni all llythrennau ei gipio, ei gynnwys.²

Pe bai'r englynion hyn ond wedi sôn am y byd/nef yn bapur a'r môr yn inc, byddai gennym yn y Gymraeg yr enghraifft gynharaf o'r fformwla honno yn llenyddiaeth Ewrop!

Ceir sawl enghraifft arall o dopos yr anhraethadwy yn llenyddiaeth

Gymraeg yr Oesoedd Canol a'r cyfnod modern cynnar. Yn Llyfr Du Caerfyrddin, y llawysgrif hynaf o farddoniaeth Gymraeg sydd wedi goroesi, gwelir cerdd ar 'destun a fu'n boblogaidd yn y rhan fwyaf o ieithoedd y cyfandir er yn fore iawn',³ thema a darddodd o'r Aifft yn ôl pob tebyg,⁴ sef 'Dadl y Corff a'r Enaid'; ac yn nechrau'r gerdd honno ceir llinellau y mae Henry Lewis yn eu haralleirio fel a ganlyn:

Pe bai pawb dan haul, a'r holl greaduriaid dan y môr, a'r holl adar
a wnaeth yr Hollalluog yn uno mewn mawl, a phe bai gan bawb dri
thrichant o dafodau, ni allent ddatgan galluoedd y Drindod.⁵

Ceir enghraifft ddiddorol o ddefnyddio topos yr anhraethadwy mewn modd negyddol mewn cerdd ymryson rhwng yr eglwys a'r dafarn o waith y cwndidwr o Forgannwg, Tomas Llywelyn o'r Rhigos (*fl.* 1580–1610), pan ddywed yr eglwys wrth y dafarn:

A'm bod i bedair wythnos
Yn myfyrio ddydd a nos
Yn wir ni fedrwn enwi
Hanner yr holl ddrygioni
A sy'n y byd es dyddiau
Gan amlod yw'r tafarnau.⁶

Ceir peth tystiolaeth fod dylanwad y canu rhydd cynnar a'i fân-alegorïau ar waith Dafydd William, Llandeilo Fach.⁷ Oes aur y cwndid oedd ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg, ac un o ganolfannau pwysicaf y *genre* oedd y wlad o gwmpas Glyn Ogwr a Thir Iarll ym Morgannwg. Yn yr un ardal a'r un cyfnod, bu llawer o gopïo ar destunau rhyddiaith ac o gyfieithu testunau rhyddiaith (o'r Saesneg yn bennaf), megis 'Treigl y Marchog Crwydrad', 'Dives a Phawper', fersiwn o 'Chwedlau Saith Doethion Rhufain', a'r 'Gesta Romanorum'. Yr hyn sy'n nodweddu llawer o'r cynnyrch rhyddiaith hwnnw yw'r elfen ddidactig foesol a chrefyddol a berthyn iddo, ac mae tipyn ohono ar ffurf dameg, homili, stori ac alegori.⁸ Er i Dafydd William dreulio'r rhan fwyaf o'i oes yng nghyffiniau Pontarddulais, bu'n cadw ysgol yng nghylch Margam yn yr 1760au a bu'n byw ym Mro Morgannwg o tua 1777 hyd ei farw yn 1794. Tybed, felly, ai un o gwndidau Morgannwg, neu efallai ddarn o ryddiaith a gynhyrchwyd yn y cyffiniau, fu'r ffynhonnell neu'r ysbrydoliaeth ar gyfer fformwla'r môr yn inc a'r byd yn bapur yn ei emyn ef? Ceir sawl enghraifft o dopos yr anhraethadwy yn 'Treigl y Marchog Crwydrad', er

enghraifft, ond nid yr union fformwla am y byd/nef yn bapur a'r môr yn inc, ysywaeth.⁹

Fel mae'n digwydd, fe geir enghraifft o'r fformwla mewn cerdd yng nghasgliad T.H. Parry-Williams o'r canu rhydd cynnar, ond nid o Forgannwg y daw'r gerdd. Ei theitl yw 'Helfa Hawdd ei Hepgor', ac er bod enw awdur Cymraeg wrthi, sef Thomas Owens o Lanelwy, ymddengys mai cyfieithiad neu led-gyfieithiad o'r Saesneg ydyw, er na lwyddwyd i ddod o hyd i'r gwreiddiol. Cerdd yn dyddio o tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg ydyw. Mae'n gerdd hir o dros 580 o linellau. Cerdd ymddiddan ydyw rhwng hynafgwr a gŵr ifanc, ac a barnu oddi wrth nifer y copïau llawysgrif ohoni sydd wedi'u cadw, bu'n gerdd ddigon poblogaidd.¹⁰ Digwydd y fformwla tua diwedd y gerdd (llau. 487–506), mewn araith gan yr hen ŵr. Dyma'r adran berthnasol, wedi diweddarau'r orgraff:

Pe bai gwellt yr ŷd yn binne
A'r môr glas yn inc o'r gore
A'r holl ddaear gron o'i natur
Yn gwas'naethu yn lle papur
A'r coed yn ysgrifenyddion
Dysgedig a thra doethion
A chyn amled yr areithwyr
Ag y gweli sêr yr awyr
A rhoi y rhain i gyd i'r unlle
A'u pinnau ac a'u penne
I geisio gosod allan
Bob rhai o eitha' eu hamcan
Bob drygioni a newidion
Sy'n digwyddo i bob dynion
Mewn un flwyddyn drwy yr hollfyd
Wrth ddiogi a seguryd
Gwn na bydde yn hawsach iddyn
Mo ddwyn hynny i berffaith derfyn
Nog i tithe roddi cyfri
O holl dyfod [= tywod] y môr heli.

At hynny fe geir y fformwla mewn darn rhyddiaith o tua'r un cyfnod, sydd eto o bosibl â chysylltiad â Llanelwy. Fe'i gwelir yn niweddglo

‘Llythyr Annerch at Ferch’, un o’r ymarferiadau rhethregol yn ysgolion y beirdd a elwir yn ‘areithiau pros’:

Tuag at am draethu eich pryd chwi a’ch campau, nid oeddwn i abl
pei bai’r môr yn inc, a’r tir yn bapur, a’r sêr yn wŷr, a’r gwŷr yn
ysgrifenyddion, ac edenydd gwyddau ac alarchod a pheunod ac
adar yr holl ddaear yn binnau, chwaethach bod y pin yn rhwth, a’r
papur yn llaith, a’r llaw yn grynedig, a’r corff yn gwywo o’ch
cariad dirfawr.¹¹

Mae’n amheus gennyf a yw’r naill na’r llall o’r gweithiau hyn o’r unfed
ganrif ar bymtheg, nac ychwaith y cywydd o fawl i’r Forwyn Fair gan
Hywel Dafi o’r bymthegfed ganrif (a ddyfynnwyd ar ddechrau rhan
gyntaf yr erthygl hon), yn ffynhonnell uniongyrchol ar gyfer y fformwla
ym mhennill emyn Dafydd William (nac ym mhennill Hywel Gruffydd o
ran hynny), ond dangosant fod y fformwla mewn cylchrediad yn y
Gymraeg cyn y ddeunawfed ganrif, er na wn am enghreifftiau eraill sydd
wedi goroesi.¹² Mae’n werth nodi, hefyd, mai’r ‘byd yn bapur’ yw’r
amrywiad ar y fformwla sydd yn y tair enghraifft gynnar hyn, fel ym
mhennill Dafydd William, tra mai’r ‘nefoedd yn bapur’ sydd ym
mhennill diweddarach Hywel Gruffydd.

Roedd Dafydd William (1721?–94) yn gyfoeswr i William Williams
(1717–91), Pantycelyn, ac yn symud yn yr un cylchoedd ag ef yn y
mudiad Methodistiaidd cynnar yn sir Gaerfyrddin a gorllewin
Morgannwg yng nghanol y ddeunawfed ganrif. A hyd yn oed ar ôl i
Dafydd William droi at y Bedyddwyr a symud i Fro Morgannwg yn
niwedd yr 1770au, ni thorrodd ei gysylltiad yn llwyr â’i hen gyfeillion
yn y mudiad Methodistiaidd, fel y dengys y ffaith iddo ganu marwnad i
Williams Pantycelyn.¹³ Gogleisiol, felly, yw gweld yr amrywiad hwn ar
dopos yr anhraethadwy mewn pennill gan Williams Pantycelyn yn ei
gerdd hir, *Golwg ar Deyrnas Crist* (ail arg., 1764):

Fel pe bai g’nifer llyfyr ag ydyw gwellt y maes
I gyd wedi[’u] ’sgrifennu tu fewn ac o tu faes,
Yn dangos fy mhechodau, a’u hamgylchiadau trist, –
’Ddangosent fyth mor eglur ag angau Iesu Grist.¹⁴

A dyma Williams eto, mewn pennill adnabyddus o’i gerdd hir arall,
Bywyd a Marwolaeth Theomemphus (1764):

Fy Nuw! fy Nhad! fy Iesu! boed clod i'th enw byth!
Boed dynion i dy foli fel rhif y bore wllith!
O! na bai wellt y ddaear oll yn delynau aur
I ganu i'r hwn a anwyd ym Meth'lem gynt o Fair.¹⁵

Cerdd a briodolid i Williams Pantycelyn ac i Dafydd William, Llandeilo Fach, ill dau, yn eu tro, a cherdd a fu'n boblogaidd ar y taflenni baledi, yw 'Cân y Pren Gwyrddlas'. Yn niwedd y gerdd, mynega'r bardd ei anallu i foli Crist yn gyflawn:¹⁶

Pe meddwn ddawn rhyw angel uchod,
Neu seintiau'r ddaear isod faith,
A chanu'n gynnil flwyddi ganmil
Ymysg yr epil eiddil iaith,
Methu wnawn â chwrdd â geiriau,
Boddi wnâi'm synhwyrau'n lân;
Chwilio a darllen pob ysgrifen,
Methu â gorffen ar y gân.

Cerdd arall a fu'n boblogaidd ar y taflenni baledi yw un yn gwrthwynebu Undodiaeth gan Owen Dafydd (1751–1816), melinydd, cylchwr ac Annibynnwr o Gwmgarenig yng Nghwm Aman. *Cân yn dangos fod Crist yn Dduw yn gystal ag yn Ddyn* yw ei theitl. Ymddangosodd gyntaf o wasg John Voss, Abertawe, yn 1806, a chawn ynddi nifer o benillion yn y cywair a ganlyn:¹⁷

'Tai sant am bob glaswelltyn
Sydd ar y ddaear lawr,
A mil am bob tywodyn
S' ar fin y moroedd mawr,
Tafodau gan y rheini
Fwy na rhifedi'r dail,
Rhy fach i ddweud gogoniant
Sy'n haeddiant Adda'r ail.

'Tai un o'r côr nefolaidd
Yn dod o'r nef i lawr
I rifo llwch y ddaear
A gwlith y bore wawr,

Fe allai wneuthur hynny
Mewn 'chydig iawn o bryd;
Dweud hanner haeddiant Iesu
Nid all y côr i gyd.

Ceir adlais o'r fformwla am y môr yn inc yng nghwpled cyntaf emyn gan Ellis Evans (1786–1864), brodor o Lanuwchllyn a dreuliodd gyfran sylweddol o'i fywyd yn weinidog Bedyddiedig yng Nghefn-mawr ger Rhiwabon. Cynhwyswyd yr emyn yn y casgliad emynau *Moliant o Enau Plant* (1833), a olygwyd gan weinidog Bedyddiedig arall, John Prichard (1796–1875), Llangollen, a dyma ei bennill cyntaf:

Haws imi 'spyddu'r moroedd
Yn llwyr â'r sgrifell wen;
Haws imi rifo'r tywod,
Ac aml sêr y nen;
Haws imi gyfri'n gyson
Y gwlith ar foreu'r wawr,
Na rhifo oesoedd meithion,
Y trag'wyddoldeb mawr.¹⁸

Fe geir fformwla'r byd yn bapur a'r môr yn inc yn y gân werin 'Lodas Lân Hardd ei Phryd', a ddysgodd Dr Meredydd Evans gan ei fam. Un o Lanegryn, sir Feirionnydd, oedd ei fam, ac fel y dywed Merêd, 'y mae peth o flas y môr' ar y gân drwyddi draw. Fe'i cyhoeddwyd ganddo yn *Canu Gwerin*, 2 (1979), a dyma'r pennill olaf fel y'i ceir yno (t. 50):

Pe byddai'r byd yn bapur
A'r môr yn inc bob ton,
Ni fyddai'n hanner digon
I sgwennu'r fordaith hon!

Ond go brin mai dyna ffynhonnell neu ysbrydoliaeth y ddau emyn llafar gwlad sydd gennym dan sylw yma. Fel yn achos y pennill dirwest a ddyfynnwyd yn rhan gyntaf yr erthygl hon, mae'n fwy tebygol i bennill mam Merêd gael ei batrymu ar yr emynau llafar gwlad hyn yn hytrach nag fel arall.

I grynhoi, felly. Ac eithrio'r tair enghraifft o'r bymthegfed ganrif a'r unfed ar bymtheg a nodwyd uchod, ni wn am yr un enghraifft o union fformwla'r byd/nef yn bapur a'r môr yn inc yn y Gymraeg cyn emynau Dafydd William a Hywel Gruffydd, er bod nifer o enghreifftiau eraill o

dopos yr anhraethadwy ar gael yn y Gymraeg, yn ymestyn yn ôl i'r ddegfed ganrif, o leiaf. Mae Dafydd William yn emynydd arbennig o fyrlymus a dychmyglon ei ddelweddu, ac oni bai fod fformwla'r byd/nef yn bapur yn un mor eang a hynafol ei dosbarthiad rhyngwladol, ni fyddai wedi bod yn anodd credu i Dafydd William ei dyfeisio o'i ben a'i bastwn ei hun, wedi'i ysbrydoli gan enghreifftiau o dopos yr anhraethadwy yn y canu rhydd cynnar ac yn llenyddiaeth Fethodistaidd ei ddydd, a chan adrannau o'r Beibl megis Salm 19:1 ac Efengyl Ioan 21:25 a'r rhannau hynny o'r salmau a'r proffwydi (fel 1 Cronicl 16:31–33, Salm 96:11–12 ac Eseia 55:12) sy'n sôn am y bryniau yn bloeddio canu a choed y maes yn curo dwylo. Rhywbeth felly a ddigwyddodd un tro, fe ymddengys, yn achos y pregethwr Methodist garw a gwreiddiol hwnnw, Owen Tomos Rolant (g. 1735) o Benrhosllugwy ym Môn:

Adroddir iddo ar un achlysur, pan yn pregethu yn yr awyr agored ar gyflawnder darpariaeth yr Efengyl, ac yn methu â gosod allan fel y dymunai y digonolrwydd di-derfyn sydd ynddi, ddywedyd: 'Meddylwch!' ebe, gan bwyntio a'i fys at fynyddoedd Sir Gaernarfon oedd i'w gweled dros y Fenai; 'meddylwch! pe byddai'r mynyddoedd yna i gyd yn datws; a'r môr yna i gyd yn llaeth:— dyna i chi datws llaeth! Ond beth ydi hynny i'r cyflawnder sydd yn yr Efengyl!'¹⁹

Ond go brin mai ysbrydoliaeth fyrfyr o'r fath sydd y tu cefn i benillion Dafydd William a Hywel Gruffydd. Oherwydd dosbarthiad eang y fformwla a'i hynafiaeth, rhaid eu bod wedi benthyca delweddaeth eu penillion o ryw batrymau blaenorol yn hytrach na'u dyfeisio o'r newydd, a rhaid hefyd eu bod yn tynnu ar ffynonellau annibynnol ar ei gilydd, gan fod y naill yn cynnwys yr amrywiad 'byd yn bapur' a'r llall yr amrywiad 'nefoedd yn bapur'.

Fel yr awgrymwyd yn barod, go brin fod yr un o'r tair enghraifft Gymraeg o'r bymthegfed ganrif a'r unfed ar bymtheg o fformwla'r byd yn bapur yn ffynhonnell uniongyrchol i benillion emynau Dafydd William a Hywel Gruffydd. Wedi dweud hynny, gogleisiol yw gweld 'Pe bai'r ddaear yn fara' yn llinell mewn cywydd gan y bardd o'r bymthegfed ganrif, Dafydd Nanmor (*fl.* 1450–90), yn enwedig o gofio bod Dafydd Nanmor yn frodor o ardal Beddgelert yn wreiddiol! Digwydd y llinell yng nghanol amrywiad ar 'dopos yr anhraethadwy' mewn cywydd yn sôn

am helaethrwydd y gwledda yn llys Rhys ap Maredudd o'r Tywyn, yn ne Ceredigion, cywydd a nodweddir drwyddo draw gan eithafrwydd y disgrifiadau:

Pe bai deirmil yn ddilys
O erydr rhif ar dir Rhys,
Pe bai'r ddaear yn fara,
Neu flas dŵr fel osai da,
A thrychan gwinllan a gwin
Ac yn malu gan melin,
Yn ei wledd rhyfedd barhau
Dŵr a daear dri dridiau.²⁰

Fe allasai ffynonellau delweddaeth penillion Dafydd William a Hywel Gruffydd fod yn rhai Cymraeg, yn llafar neu yn ysgrifenedig. Hawdd fyddai credu bod Dafydd William wedi cael delweddaeth ei bennill o un o gerddi'r canu rhydd cynnar sydd wedi hen ddiplannu bellach. Ond yn niffyg tystiolaeth bendant i'r gwrthwyneb, rhaid ystyried y posibilrwydd cryf nad ffynonellau Cymraeg oedd y patrymau ar gyfer delweddaeth eu penillion. Ac at y posibilrwydd hwnnw y trown nesaf.

(*I'w barhau*)

NODIADAU

* Ail ran erthygl yn seiliedig ar ddarlith a draddodwyd yng Nghwrs Preswyl Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Llangrannog, 30 Medi 2001. Cyhoeddwyd y rhan gyntaf yn *Canu Gwerin*, 25 (2002), tt. 48–58.

- 1 E.R. Curtius, *European Literature and the Latin Middle Ages*, cyf. Willard R. Trask (Efrog Newydd, 1953), tt. 159–62. 'Pwnc yr anhraethadwy' yw cyfieithiad Marged Haycock o'r term yn ei *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar* (Cyhoeddiadau Barddas, 1994), t. 5.
- 2 Daw'r addasiad a'r aralleiriad o ddetholiad A.M. Allchin ac Esther de Waal, *Ar Drothwy Goleuni: Gweddi a Moliant o'r Traddodiad Celtaidd* (Aberystwyth, 1992), tt. 5, 63–4. Am olygiad ac aralleiriad manwl o'r gerdd gyfan, ynghyd â rhagymadrodd a nodiadau, gw. Marged Haycock, *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, tt. 3–16; gw. hefyd Ifor Williams, *The Beginnings of Welsh Poetry*, gol. Rachel Bromwich, ail arg. (Caerdydd, 1980), pennod 7.
- 3 Henry Lewis, *Hen Gerddi Crefyddol*, adargraffiad (Caerdydd, 1974), t. xii.
- 4 Gw. Bobi Jones, 'Ymryson ac Ymddiddan Corff ac Enaid', *Ysgrifau Beirniadol V*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1970), t. 46.

- 5 Henry Lewis, *Hen Gerddi Crefyddol*, t. 126; gw. hefyd olygiad Marged Haycock o'r gerdd yn *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, tt. 203–33. Gwelir topos yr anhraethadwy yn un arall o gerddi Llyfr Du Caerfyrddin, 'Bendith y Nef', llinellau 12–18, a aralleirir gan Marged Haycock fel a ganlyn: 'Hyd yn oed pe bai'r bardd cyffredin yn meddu ar alluoedd y prydydd dawnus wrth ganu am ryfeddodau'r byd a'r gofod, ni fedrai draethu holl gyfoeth Duw wrth ganu ei foliant' (*Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, t. 109). Detholodd Marged Haycock gerdd arall i'w *Blodeugerdd* sy'n cynnwys y topos hwn, sef 'Difregwawd Taliesin', y ceir y copi cynharaf ohoni yn Llyfr Coch Hergest (c. 1400). Y Crist ymgnawdoledig yw'r gwrthrych y tro hwn: 'Ni fedr neb gyfrif, na'r holl fydysawd fyth draethu'r holl wyrthiau hynny a gyflawnodd ein brenin yn ystod ei amser yma' (t. 350; cf. adnod olaf Efengyl Ioan). Gwyrthiau'r Forwyn Fair sydd dan sylw mewn cywydd a ganwyd c. 1520–35 gan Lewys Morgannwg i'r ddelw o Fair ar Ben-rhys: 'Mawr yw rif mewn ysgrifen,/Mwy rif dy wrthau Mair wen' – gw. *Efyrdiau Catholig*, 5 (1951), t. 45; tra gwyrthiau Dewi Sant yw pwnc Iolo Goch (c. 1325–c. 1398) yn niwedd ei gywydd 'I Ddewi Sant'. Dyma aralleiriad Dafydd Johnston o'r llinellau perthnasol: 'Pe bai rhywun mor fedrus ag ysgrifennydd proffesiynol wrthi bob dydd yn ysgrifennu buchedd Dewi mewn llyfr, go brin y gallai gofnodi ei holl wyrthiau mewn blwyddyn a thridiau' – gw. D.R. Johnston (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd, 1988), tt. 344–5. Ac yng nghywydd Huw Cae Llwyd (*fl.* 1455–1505), 'Y Creiriau yn Rhufain', ceir y llinellau 'A rifai greiriau Rufain,/A rifai'r môr . . .' – gw. Leslie Harries (gol.), *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill* (Caerdydd, 1953), t. 85, a cf. mewn cyfnod diweddarach gywydd Goronwy Owen (1723–69) yn ateb y Bardd Coch o Fôn: 'Pwy a rif dywod Llifton?' Down yn agos at fformwla'r byd yn bapur yng nghywydd marwnad Lewys Môn (*fl.* 1485–1527) i Elisau ap Gruffudd (m. 1489) o Blas-yn-Iâl, Llandegla, noddwr eang ei ddysg a fu'n berchennog Llyfr Gwyn Rhydderch ar un adeg: 'A fu i Emrys o femrwn/Ni chaid le i holl chwedlau hwn' – gw. Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Caerdydd ac Aberystwyth, 2000), tt. 256–7. Yn ôl Daniel Huws (tt. 17, 42), dechreuwyd defnyddio papur yn lle memrwn yng Nghymru o tua 1450 ymlaen, a diddorol gweld sawl cyfeiriad at bapur fel deunydd gwerthfawr yng ngerddi Lewys Môn – gw. Eurus I. Rowlands (gol.), *Gwaith Lewys Môn* (Caerdydd, 1975), t. 391. Gw. hefyd drafodaeth Andrew Breeze ar yr ymadrodd 'lliw papir' yng ngwaith Dafydd ap Gwilym: 'Nodiadau Amrywiol', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 30:3–4 (Tachwedd 1983), t. 277; *Medieval Welsh Literature* (Dulyn, 1997), tt. 119–20, 124.
- 6 L.J. Hopkin-James a T.C. Evans ('Cadrawd'), *Hen Gwndidau, Carolau, a Chwyddau* (Bangor, 1910), t. 82 (diweddarwyd yr orgraff). Ar y cwndidwyr yn gyffredinol, a Tomas Llywelyn a'r gerdd hon yn benodol, gw. Glanmor Williams, *Grym Tafodau Tân* (Llandysul, 1984), tt. 140–79.
- 7 Gw. E. Wyn James, 'Dafydd William, Llandeilo Fach', *Trafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr*, 2001, tt. 61–2.
- 8 Gw. G.J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948), tt. 143,

- 173–81; J.E. Caerwyn Williams, 'Rhyddiaith Grefyddol Cymraeg Canol (1)', yn *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol*, gol. Geraint Bowen (Llandysul, 1974), tt. 341–2; D. Mark Smith, 'Lawysgrifau Rhyddiaith Morgannwg yr Unfed Ganrif ar Bymtheg: Cynnyrch Ysgol o Gyfieithwyr? Pum Cyfieithiad', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 32:2 (Gaeaf 2001), tt. 205–23.
- 9 Gw., er enghraifft, D. Mark Smith (gol.), *Treigl y Marchog Crwydrad* (Caerdydd, 2002), llau. 2837–40: 'A bod genyf i fil o dafodey i draethy gwirionedd am yr holl ddayoni a'r diddanwch, yr hwn a gefais i yn Llys Rinwedd; ie, a phe i bewn i fyw fil o flynydde, i ddangos y mater oll, hyny oedd yn ry fychan y myfi ddyfaly y peth' (cf. llau. 347, 2282 a 3442).
 - 10 Ceir y testun yn T.H. Parry-Williams (gol.), *Canu Rhydd Cynnar* (Caerdydd, 1932), tt. 253–77; gw. hefyd Brinley Rees, *Dulliau'r Canu Rhydd 1500–1650* (Caerdydd, 1952), t. 140.
 - 11 D. Gwenallt Jones (gol.), *Yr Areithiau Pros* (Caerdydd, 1934), t. 35 (diwygiwyd yr orgraff); ceir amrywiad ar y fformwla yn yr ateb (t. 36): 'pe bai'r ddaear yn femrwn, a'r wybr yn inc, a'r sêr yn wŷr, a'r gwŷr yn ysgrifenyddion, ac adenydd gwyddau ac alarchod ac adar yr holl fyd yn binnau, ni dderfydde draethu hanner fy serch a'm cariad i arnoch chi.' Noda Gwenallt i'r araith gael ei chyhoeddi ddwywaith yn ystod y ddeunawfed ganrif, yn almanac Siôn Rhydderch yn 1727 ac yng nghyfrrol Dafydd Jones o Drefriw, *Cydymaith Diddan*, yn 1766, ac eto yn *Y Brythlon* yn 1860. Yn *Y Brython* cysylltir yr araith hon â'r bardd Siôn Tudur (m. 1602) – yntau, fel Thomas Owens, awdur 'Helfa Hawdd ei Hepgor', â chysylltiadau agos â Llanelwy – ond ni wyddys ar ba sail; gw. Enid Roberts (gol.), *Gwaith Siôn Tudur*, cyf. 2 (Caerdydd, 1980), t. xlviii.
 - 12 Rhaid pwysleisio mai gwaith 'ar y gweill' yw'r adran hon, ac na chefais gyfle i chwilio mor eang a thrylwyr ag y byddwn wedi dymuno ar gyfer enghreifftiau o'r fformwla yn y Gymraeg. O gofio'r toreh o gerddi sydd wedi goroesi o'r cyfnod modern cynnar, llawer ohonynt yn parhau heb eu cyhoeddi, heb sôn am ryddiaith y cyfnod, mae'n bur debyg y daw rhagor o enghreifftiau i'r golwg o'r cyfnod sy'n rhagflaenu cyfansoddi emynau Dafydd William a Hywel Gruffydd.
 - 13 Ann Hughes, 'Marwnad i'r Perganiedydd', *Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd*, 7 (1983), tt. 30–4.
 - 14 Gomer Morgan Roberts (gol.), *Gweithiau William Williams Pantycelyn*, cyf. 1 (Caerdydd, 1964), t. 153 (cf. tt. 139, 143).
 - 15 Ibid., t. 253. Digwydd yr ymadroddion 'gwellt y maes' a 'gwellt y ddaear' yn ei emynau hefyd – gw., er enghraifft, N. Cynhafal Jones (gol.), *Gweithiau Williams Pant-y-celyn*, cyf. 2 (Casnewydd, 1891), tt. 121, 237.
 - 16 J.H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads Printed in the 18th Century* (Llundain, 1911), tt. 244, 245; Meredydd Evans, *Merêd*, goln. Ann Ffrancon a Geraint H. Jenkins (Llandysul, 1994), tt. 319–20; Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986), t. 93–5.

- 17 Huw Walters, *Canu'r Pwll a'r Pwlpud: Portread o'r Diwylliant Barddol Cymraeg yn Nyffryn Aman* (Cyhoeddiadau Barddas, 1987), tt. 44–53; Meredydd Evans, 'Y Diwinydd yn y Ffair', yn Mary-Ann Constantine (gol.), *Ballads in Wales/Baledi yng Nghymru* (Llundain, 1999), tt. 9, 15–17; Dafydd Owen, *I Fyd y Faled*, tt. 183–4.
- 18 *Moliant o Enau Plant* (Llanrwst: John Jones, 1833), emyn 291. Cymharer ef â'r pennill adnabyddus yn *Hen Benillion*, gol. T.H. Parry-Williams, trydydd arg. (Llandysul, 1965), rhif 324:

Haws yw codi'r môr â llwy,
A'i roi oll mewn plisgyn wy,
Nag yw troi fy meddwl i,
Anwylyd fach, oddi wrthyt ti.

- 19 John Hughes Morris, *Hanes Methodistiaeth Liverpool*, cyf. 1 (Lerpwl, 1929), tt. 18–19.
- 20 Thomas Parry (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Rhydychen, 1962), t. 145. O waith Dafydd Nanmor y daw'r enghraifft gyntaf o 'inc' a nodir yn *Geiriadur Prifysgol Cymru*; ac mae'n werth cofio bod priordy Awstinaidd ym Meddgelert yn yr Oesoedd Canol. Yr oedd Dafydd Nanmor yn fwy o ysgolhaig na'r cyffredin, a chanddo ddiddordeb mewn ysgrifennu cain ac mewn ieithoedd – gw. Gilbert E. Ruddock, *Dafydd Nanmor*, cyfres Llên y Llenor (Caernarfon, 1992), tt. 22–3, 73, 91–2.

‘CAINC DAFYDD BROFFWYD’: CYFEIRIAD CYNNAR?

Rhiannon Ifans

Wrth fynd ati i gasglu ynghyd holl waith Dafydd Trefor, offeiriad plwyf yn Llaneugrad a Llanallgo ym Môn wrth ei alwedigaeth a bardd amatur yn ei amser hamdden, fe sylwais ar un cywydd penodol a allai fod o ddiddordeb mawr i ddarllenwyr *Canu Gwerin*.

Roedd yn arfer gan feirdd yr Oesoedd Canol lunio cerddi i fegera'r peth yma a'r peth arall o law gwŷr bonheddig neu fân uchelwyr eu hardal, ac fe ysgrifennodd Dafydd Trefor ei siâr o gerddi o'r fath. Fel rheol, pethau at iws fyddai'r eitemau y dymunai gael ei ddwylo arnynt, a hynny nid at ei ddefnydd ei hun bob amser. Gofynnodd Dafydd Trefor yn ei dro am gwpwrdd, bwa, alarch, caseg, march – geifr hyd yn oed – o law gwahanol uchelwyr yr oedd ef yn tybio a fyddai'n fodlon ei nodd. Ond yn amlach na heb gofyn ar ran rhywun arall a wnâi. Ac ymhlith ei gerddi gofyn, efallai y gellid rhestru cywydd 'I ofyn telyn'.

'Efallai' meddaf gan nad yw'n gant y cant sicr mai Dafydd Trefor a luniodd y cywydd hwnnw. Caiff ei briodoli'n sicr i Ddafydd Trefor mewn dwy llawysgrif, ac yn betrus mewn un llawysgrif arall. Ond mae'n cael ei briodoli hefyd i Hywel Rheinallt (*fl.* 1461–1506/7), a hynny mewn tair llawysgrif. Brodor o Lannor yn sir Gaernarfon oedd Hywel, a chanai gywyddau mawl i uchelwyr Llŷn ac Eifionydd, gan mwyaf. Mae un llawysgrif arall eto yn rhyw bendilio rhwng Dafydd Trefor a Hywel Rheinallt gan enwi'r ddau er mwyn bod yn saff. Nid yw tystiolaeth y llawysgrifau yn ddigon cryf i dorri'r ddadl y naill ffordd na'r llall, ond



Rhiannon Ifans

pw y bynnag a'i lluniodd mae'n werth treulio amser drosto.

Yn ôl y copi hynaf a gadwyd o'r cywydd, sef copi llawysgrif BL Add 14875 a gopiwyd rywbryd ar ôl 1570, y teitl a roddwyd i'r gerdd yw:

k: a barodd dd ap gwilim benkerdd i wneuthur i ofyn telyn gan edwart Sirk penkerdd o Delynior y gwr hefyd yn i amser a ddvg yr arriandlws

(cywydd a barodd Dafydd ap Gwilym bencerdd ei wneuthur i ofyn telyn gan Edward Sirc, pencerdd o delynor; y gŵr hefyd yn ei amser a ddug yr ariandlws)

Ychwanegwyd *nid y Bardd or Deheudir* mewn llaw ddiweddarach ar ymyl y ddalen. Ar ran pw y, felly, yr oedd y bardd yn cardota? Pwy oedd y Dafydd ap Gwilym 'arall' hwn?

Soniais eisoes fod Dafydd Trefor wedi llunio cywydd gofyn cwpwrdd: fe'i lluniodd ar ran telynor o'r enw Dafydd ap Gwilym, ac mae'n ddigon tebygol mai'r un Dafydd sydd yma â'r telynor hwnnw, a'r un un hefyd ag y cyfeirir ato yn rhan o ymryson a sbardunwyd gan gywydd Dafydd Trefor 'I ofyn alarch'.

Os y teitl uchod oedd teitl gwreiddiol y gerdd (yn hytrach na bod yn deitl a roed arno'n ddiweddarach), ar sail y datganiad am benceirddiaeth Edward Sirc mae'n bosibl dyddio'r gerdd i'r cyfnod 1523–8, sef i'r cyfnod byr o fywyd a oedd ar ôl i Dafydd Trefor wedi 1523, blwyddyn urddo Edward Sirc yn bencerdd yn Eisteddfod Caerwys. O dderbyn y teitl uchod gellir hefyd ddiystyru hawl Hywel Rheinallt i'r cywydd gan iddo farw ymhell cyn dyddiad Eisteddfod gyntaf Caerwys ac ni wyddai o'r herwydd ddim am yr anrhydedd a ddaeth i ran Edward Sirc yn 1523.

Ystyriaeth arall wrth geisio tadogi'r gerdd ar un bardd neu'r llall yw'r cyfeiriad at *bencerdd* yn llinell 18 y cywydd (gw. y testun isod). Wrth gyfarch Edward Sirc fe ddywed y bardd amdano: *Dy bwnc a gad o bencerdd*. Yn y llinell hon awgrymir naill ai fod Edward Sirc wedi etifeddu ei ddawn gerddorol, a hynny, efallai, gan ei daid a oedd yntau, o bosibl, yn bencerdd telyn, neu fe awgrymir bod *pwnc*, sef 'cân' felys Edward Sirc, wedi ymffurfio mewn pencerdd, a gellid deall hynny'n gyfeiriad at Edward Sirc ei hun, fod ei gân yn codi ohono ef ei hun, y pencerdd. Os cyfeirir yma at Edward Sirc yn bencerdd, a bod y bardd yn defnyddio'r term yn ei ystyr dechnegol, yna mae'n sicr nad Hywel

Rheinallt yw awdur y cywydd. Ar y llaw arall, roedd yn arfer gan y beirdd orliwio a gorganmol campau a gwychedrau eu noddwyr; at hynny dyma unig gyfeiriad Dafydd Trefor, os ef a'i piaf, at raddau'r urdd farddol yng Nghymru.

Ond o ystyried tystiolaeth bosibl y teitl, tystiolaeth bosibl y term *pencerdd*, ynghyd â chyfeillgarwch farddol Dafydd Trefor a Dafydd ap Gwilym, rwy'n rhyw dueddu at y farn mai cywydd yr offeiriad o Fôn yw hwn. Mae'r dystiolaeth o blaid Dafydd Trefor yn sicr yn rhy gref i'w hanwybyddu, ond wrth gwrs mae'r mater ymhell o fod wedi ei setlo.

Ymddengys enw Edward Sirc, fel y soniwyd, ar restr graddedigion Eisteddfod gyntaf Caerwys, lle cadarnhawyd gradd pencerdd telyn iddo:

*Edwart Sirk / Thomas amhadoc / Edñ grythor / a morys llanvair /
a raddiessid or blaen mewn neithiorav Reiol yn benkerddiaid ac
yno I sikrawyd drwy I kanhiadv ai konffyrmio*¹

(Edward Sirc, Tomos Amhadog, Ednyfed Grythor, a Morys Llanfair a raddiesid o'r blaen mewn neithiorau reiol yn benceirddiaid ac yno y'u sicrhawyd drwy eu caniadu a'u conffyrmio)

Ar gyfer graddio'n bencerdd dyma oedd y gofynion:

*Pencerdd neu athro a ddylai wybod deg ar hugain o glymau
ymryson, ac o hynny o'r hyn lleiaf tair o'r colofnau, tair o'r
cadeiriau.*²

Enillodd Edward Sirc yr ariandlws wedi hynny mewn ymryson. Yr ariandlws oedd y brif wobr i'r telynor, sef tlws arian ar ffurf telyn, ac er mwyn ei ennill roedd yn rhaid mynd un cam ymhellach na champ y pencerdd:

*rhaid yw iddo wybod ei bedair cadair a'r pedair colofn, a'r
pedwar mesur ar hugain a'r pedwar cwlwm cytgerdd ar hugain
arnynt; a dosbarthu pob gwahan a rhagwan, pob cynhwysiad a
gorffwysfa, pob ysmudfa ar dyniad a chyweirdant; a dangos cerdd
dant warantedig o'i waith ei hun yn bencerddiaid ac yn
athrawaidd, fel y bo cydwybodus i bencerddiaid a doethion ei
farnu a'i ddewiso yn awdur ac yn athro ar ei gelfyddyd; canys ni
ddylai neb ddyngu ond gan athro pencerddiaid, neu gael ganddo
farnu neu osod yn iawn a ddysgo gan arall. Ac os telynor fydd,
rhaid yw iddo wybod trimwchl odidog, y cwlwm a raddiwyd gynt*

yn gyfuwch â deg cwlwm a deugain, pob colofn o'r pum (?pedair) colofn a raddiwyd yn ddeg cwlwm bob un, pob cadair o'r pedair cadair yn bum cwlwm bob un ... achos nid i neb i geisio gradd y cawsant y rhagorfraint hwnnw, nac y prisiwyd hwy felly yn gyfuwch o rifedi clymau, ond lle bai ddau bencerdd yn ymryson am ariandlws, neu ymryson arall am flaen a gosod a chadw rhagoriaeth rhwng pencerddiaid a disgyblion wedi cael eu graddau o'r blaen mewn eisteddfodau neu neithior reiol.³

Mae'n ymddangos fod Edward Sirc, felly, ymysg telynorion gorau ei ddydd, yn berchen ar dair telyn yn ôl honiad y cywydd hwn, ac roedd wedi cipio'r ariandlws mewn ymryson â phencerdd telyn.

Honnir yma fod Edward Sirc yn treulio'i amser yng nghwmni ieirll, yn uchel ei barch ac yn hoff ganddynt (gw. llinellau 5–6 y testun isod), ac mae'n bosibl ei fod yntau ei hun yn farwn yn ôl un awgrym yn y gerdd: *Aerwy sêr ... / A thwred aur i'th war di* (gw. llinellau 7–8 y testun isod). Awgrymir yma statws uchelwrol Edward Sirc yn siŵr, ac mae'n bosibl fod y sôn am *aerwy sêr* 'coler serenog' a *thwred aur* 'tŵr bychan eurog' am ei war yn golygu iddo gael ei urddo'n farwn rywbyrd yn ystod teyrnasiad Harri VII. Ond nid yw Edward Sirc yn cael ei enwi, serch hynny, yn rhestr marchogion Cymru a Lloegr yn y cyfnod.⁴

Nid hwn yw Edward Chirk (neu Edward Maelor), a dylid cadw mewn cof y cymysgu a fu rhwng Edward Chirk/Maelor, *fl.* 1567–1603,⁵ ac Edward Sirc. Nid hwn chwaith yw'r Edward Sirc arall, sef y crythor a wnaed yn gyff gwawd tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.⁶ Yn hytrach, dylid edrych am ei dras, o bosibl, yn llawysgrif LIGC 15551C, 53v–54r mewn llaw wahanol i'r achau eraill, sef llaw Edward Maelor, mae'n debyg:

*Edward maelor ab sion ab ed sirk ab dd ab y llwydto ab sion ab grvdd maelor ab madoc amhredvdd ab pleddyn ap.*⁷

(Edward Maelor ap Siôn ab Edward Sirc ap Dafydd ab Y Llwyto ap Siôn ap Gruffudd Maelor ap Madog Amredudd ap Bleddyn ap ...)

Ach anghyflawn yw hon. Bu farw Madog ap Maredudd, ŵyr yn hytrach na mab Bleddyn ap Cynfyn, yn 1160, ac ni fu i Ruffudd Maelor fab o'r enw Siôn. Ond os oes coel ar yr ach hon o gwbl mae'n ymddangos fod Edward Sirc yn daid i Edward Maelor. Yn y copi o'r cywydd hwn a briodolir i Hywel Rheinallt, gelwir Edward Sirc yn Edwart ap Siôn⁸ ac yn

y cywydd hwn fe'i gelwir yn *Edward Sirc o dir'waed Siôn* (ll. 4): mae'n debygol felly mai Siôn, yn hytrach na Dafydd, oedd enw ei dad. Ar sail tystiolaeth ymddangosiadol y cywydd hwn, dyma ach Edward Sirc: *Edward Sirc o dir'waed Siôn*, ... *ŵyr y Llwyteg* (gw. llinellau 4, 6 y testun isod) a gellir ei aralleirio 'Edward Sirc o waed croyw Siôn, ... *ŵyr y Llwyteg*'.

Yn ogystal â bod yn bencerdd telyn roedd Edward Sirc hefyd yn grythor:

*Moses powell wrth Edd Sirk pan grogai Edw i grwth ar yr hoel, a ddevdai na buasse raid iddo moi grogi er a wyddai arno, yr atebai Edd ynte nac er addygasse o arian o bwrs ynte*⁹

(Moses Powell wrth Edward Sirc pan grogai Edward ei grwth ar yr hoel[en], a ddywedai na buasai raid iddo mo'i grogi er a wyddai arno, yr atebai Edward yntau nac er a ddygasai o arian o bwrs yntau)

Cyferchir yr athrylith hwn, y bardd a'r telynor a'r crythor, yn null traddodiadol y cyfnod, sef ar ffurf cywydd, a chyda neges draddodiadol y cyfnod, sef drwy fynd yn drwm ar ei ofyn.

Cyflwynaf isod olygiad newydd o'r gerdd 'I ofyn telyn', ynghyd â rhai sylwadau am fydd cerddgar y cyfnod.

I ofyn telyn

- Y cerddor ifanc irddoeth,
Ni bu it ddydd na bait ddoeth!
Eryr rhwydd i roi rhoddion,
4 Edward Sirc o dir'waed Siôn.
Mae cariad, mewn tyfiad teg,
Ieirll iti, ŵyr y Llwyteg;
Aerwy sêr a roes Harri
8 A thwred aur i'th war di;
Prydydd ac awenydd wych
A thelynor ffrwythlawnwych,
O'th ddwy gerdd cyfoethog wyd,
12 A di-dlawd mewn dadl ydwyd.
Ni bu raid ar dy daid ofn
Er cwlm no'r pedair colofn:
Gwin ydoedd ei ganiadau
16 Ac yn y brig digon brau.

Dy ffriw yw'r gwaith, deffro'r gerdd,
 Dy bwnc a gad o bencerdd;
 Da fu Iesu'n dy fysedd,
 20 Deced sŵn byrdwn, heb wedd;
 Nid tebyg llawnfrig y llaw
 Ond i'r angel yn dringaw;
 Cynnal dull, canol y did,
 24 Cad Gamlan, cadw ac ymlid;
 Campus, trwsiadus ydwyd,
 Cyfion a gwyh, cefnog wyd.
 Dy alw ydd wy', Dai Wilym,
 28 Dy nerth yn benna' dyn ym:
 Mae'n dy gwert, mwyn wyd a gwyh,
 Dair telyn, Edwart haelwych,
 Archaf a dygaf, yn d'ôl,
 32 Un i'th gân, pennaeth gwrol.
 O cheir i Fôn y ferch ar faeth
 Y mae yma ei mamaeth;
 Cantor fyddaf i forwyn,
 36 Ca'lyn y delyn a'i dwyn;
 Canu cerdd ag acenion,
 C'weirio a dyhuddo hon.
 Deg tant a wnaeth Duw'n gytûn
 40 A gânt dyrnod gwynt arnun',
 Ffordd 'Ddafydd Broffwyd' o'i phen,
 I gadw'r Affrig o driphren;
 Clawdd esgyrn, coludd wisgaw,
 44 Cwr cafn, corf llorf, cyfiawn llaw,
 Ei chod a'i gwregys a'i cherdd
 A'i ch'weirgorn yn ddichwerwgerdd.
 Organ yw hon â'r gown hir
 48 Nes i gysgu nis gwisgir;
 Dêl merch i'r dwylo mau,
 Dyn chwyrn a dynn ei chernau.
 Dy rodd im, was dewr, a ddaw:
 52 Dyn hael wyd yn ei hwyliaw;
 Dwy neu dair a gair o'i gwedd,

Dyro, Edward, y drydedd.

Mae'r cywydd 'I ofyn telyn' yn gloddfa o gwestiynau, rhai atebion, a nifer o led-atebion; mae ynddo sylwadau difyr, rhai o ddiddordeb cymdeithasol, rhai o ddiddordeb llenyddol, eraill yn achyddol eu hapêl, ac eraill eto o ddiddordeb i'r cerddor.

O ddisgrifio'r cywydd mewn brawddeg neu ddwy, dylid dweud bod y cywydd yn rhannu'n ddwy ran, y rhan gyntaf yn agor drwy foli Edward Sirc, y noddwr, a hynny o ran ei dras, ei ddawn gerddorol ddiymwad, ac o ran ei amgylchiadau tymhorol (llynellau 1–26). Mae'r ail ran (llynellau 27–54) yn canolbwyntio ar y delyn mae'r bardd yn dymuno ei chael yn rhodd ganddo. Telyn o blith casgliad o dair telyn Edward Sirc yw hon. Pwysleisir ei gwerth a'i swyn, ac fe'i gwelir ar ddull merch (ll. 33 *y ferch*, ll. 35 *forwyn*, ll. 49 *merch*) a'i *gown hir* (ll. 47).

O hyn i'r diwedd fe hoffwn nodi'n fyr ambell beth o bwys a diddordeb i ddarllenwyr y cylchgrawn. Dechreuaf gyda'r Llwyteg.

Y LLWYTEG

Nid yw'n sicr mai enw person a geir yma: mae'r enw cyffredin *llwyteg* sy'n golygu 'yr un hawddgar â'i wallt wedi britho', neu 'gwelw a glandeg', hefyd yn bosibl, ond tybiaf mai'r un gair yw hwn â'r gair *Llwyto* sy'n digwydd yn ach answyddogol Edward Sirc a ddyfynwyd uchod.

Os yw hynny'n wir, ac os taid Edward Sirc yw'r Llwyteg hwn, mae'n ddiddorol iawn fod llawysgrif Robert ap Huw, y telynor dawnus hwnnw a dreuliodd amser fel cerddor proffesiynol yn llys Siams I, yn cynnwys darn cerddorol (anghyflawn, yn anffodus) dan y teitl 'Gosteg y Llwyteg'.¹⁰ Credir mai enw personol yw'r Llwyteg hwnnw ar sail, ymhlith dadleuon eraill, y cyfeiriad a ganlyn yn llawysgrif LIGC 17116B [= Gwysanau 28], 61v *Y Llwydteg ach Kynverig Ben Kerdd*. Ond pwy bynnag oedd taid Edward Sirc, mae'n amlwg ei fod yn delynor dawnus yn ei ddydd (gw. llynellau 13–16), ac nad oedd gofyn iddo bryderu ar gyfrif canu cwlm ar y delyn, na chanu'r *pedair colofn*, ac yr oedd ei *ganiadau* fel gwin.¹¹

DWY GREFFT

Nodwedd anghyffredin ar ddyn yn y cyfnod hwn oedd bod yn arbenigwr mewn dwy grefft, ond dyna a ddywedir am Edward Sirc. Canmolir ef am ei ddoniau barddol a cherddorol, ac oherwydd hynny yr oedd yn sefyll allan yn ei ddydd. Er bod Statud Gruffudd ap Cynan yn gwahardd dyn rhag bod yn fardd ac yn delynor, ac yn cymell yr unigolyn i ddewis rhwng y ddwy grefft, roedd ambell enghraifft o rai yn gwisgo'r ddwy het, fel y gwna Edward Sirc:¹²

Prydydd ac awenydd wych
A thelynor ffrwythlawnych,
O'th ddwy gerdd cyfoethog wyd,
A di-dlawd mewn dadl ydydd. (llinellau 9–12)

Y *ddwy gerdd* y cyfeirir atynt yw cerdd dafod a cherdd dant, dwy grefft yr oedd Edward Sirc yn hyddysg iawn ynddynt. Cerdd dafod yw'r grefft farddol a cherdd dant yw 'crefft tannau', sef y grefft o ganu offeryn(nau) gyda thannau iddynt, er enghraifft canu telyn a chrwth. Yn ôl y dogfennau sy'n ymwneud ag eisteddfodau Caerwys mae'n debyg fod yr un urddas yn cael ei roi ar gerdd dafod a cherdd dant.¹³ Cadwyd un cywydd, pedwar englyn, ac un pennill unodl wedi'i lunio â dau gwpld cywydd, o waith barddol Edward Sirc,¹⁴ ochr yn ochr â'r sôn am ei orchestion fel cerddor.

Cadarnheir yn llinell 12 fod Edward Sirc yn *ddi-dlawd*, sef yn gyfoethog neu'n alluog, mewn *dadl*. Tybed ai 'ymryson' a olygir wrth *dadl*, naill ai ar gerdd dafod neu ar gerdd dant, ac ai ymryson yn llwyddiannus am yr ariandlws yn benodol a olygir yma? Dylid cadw mewn cof hefyd y dylai pencerdd telyn wybod deg ar hugain o glymau *ymryson*. Posibilrwydd arall yw mai ymryson yn yr ystyr o gystadleuaeth datgan cerddi arbennig, y math o ymryson y sonnir amdano yn Llyfr Aneirin,¹⁵ sydd dan sylw yma, ac yr oedd tlws arian ar ffurf tafod i'r datgeiniad gorau.

DWY AWEN

Ond beth bynnag yw union ystyr *ymryson*, does dim dwywaith nad oedd dawn Edward Sirc yn un dra gwyh. *Da fu Iesu'n dy fysedd* meddir amdano yn llinell 19. Cyfeirir yma at darddell dawn gerddorol Edward Sirc gan bwysleisio ei bod yn darddell ddwyfol yn hytrach na tharddell

ddieflig. Dyma un o bynciau llosg y dydd. A oedd y doniau celfyddydol, boed y rheini'n rhai llenyddol neu gerddorol neu pa rai bynnag, yn deillio o awen gelwyddog y diafol?¹⁶ Barn yr offeiriad Catholig (os ef a'i traethodd) yw mai cynneddf ddwyfol oedd rhagoriaeth Edward Sirc ym myd cerdd, proffes gadarn o blaid natur oruwchddynol seiniau'r delyn o dan law ei meist'r.

Mae hefyd yn bosibl mai cyd-destun cerddoriaeth eglwysig sydd y tu cefn i'r ddadl hon.¹⁷ Yng nghyd-destun y sôn am awen nefol fe drafodir *sŵn byrdwn*, sef sain y bas, yr islais a genir i gydfynd â'r alaw, ac meddir amdano ei fod *heb wedd*, cyfeiriad at ei ragoriaeth. Yn wir, mae'r byrdwn hwn yn cael ei gyferbynnu ag angel yn codi i'r uchelderau paradwysaidd.

Yna fe newidir y ddelwedd a cheir darlun o berfformiad gan ddatgeiniad telyn (llynellau 23–4), gyda'r dwylo yn *Cynnal dull ... / Cad Gamlan*. Brwydr Camlan oedd brwydr olaf y Brenin Arthur, a'i elyn oedd Medrawd. Yn ystod y frwydr roedd y brenin yn *cadw ac ymlid*, sef yn 'dal yn ôl a symud ymlaen', neu'n 'gwarchod ac ymosod', a hynny yn ôl mydr pendant, sy'n gyfeiriad pellach at y *byrdwn*.

'CAINC DAFYDD BROFFWYD'

Ymddengys mai telyn ac iddi ddeg yn unig o dannau a ddymunai Dafydd ap Gwilym yn rhodd. Mynegir yma pa mor felys, pa mor gytûn, cymaint mewn harmoni, oedd sain y delyn, yn unol ag ewyllys Duw, pan fyddai'r awel (*dyrnod gwynt*) yn chwarae drwy'r tannau. A thybed nad un o'n hoff alawon, 'Cainc Dafydd Broffwyd', fyddai un o'r alawon hynny y byddai Dafydd ap Gwilym yn diddanu ei gynulleidfa â hi? Gall fod yma gyfeiriad pendant at yr alaw honno – y cyfeiriad cynharaf ar glawr a chadw, o bosibl.

Cofnodwyd y gainc ei hun, neu o leiaf bedwar bar ohoni, am y tro cyntaf yn llawysgrif Robert ap Huw,¹⁸ y gŵr y cofir amdano yn fwyaf arbennig fel telynor i Siams I. Ond er iddo dreulio cyfnod yn delynor yn llys Siams I fe dreuliodd Robert ap Huw y rhan fwyaf o'i oes ym Môn, ac nid y gerddoriaeth ffasiynol a chwaraeid yn y llysoedd brenhinol a gofnodwyd ganddo yn ei lawysgrif, ond cerddoriaeth a berthynai i'r traddodiad cerdd dant Cymreig.

Os cyfeiriad at yr alaw 'Cainc Dafydd Broffwyd' a geir yma, beth yw

Cainc Dafydd Broffwyd



Cainc Dafydd Broffwyd (ii)

bosibl felly mai rhygnu ar yr un tant (os goddefir yr ymadrodd) a wna'r bardd yma wrth ddod â'r Brenin Dafydd i gefnogi ei safbwynt.

Y DELYN

Mae Dafydd Trefor (os ef hefyd) yn mynd i hwyl wrth drafod y delyn y mae Dafydd ap Gwilym yn awyddus i'w chael. Defnyddia sawl trosiad diddorol dros ben i'w disgrifio, gan gynnwys y cyfeiriad cwbl annisgwyl hwn at wlad yr Affrig a welir yn llinell 42. Pam enwi'r Affrig? Yn sicr roedd gwledydd Affrica yn enwog am eu telynu: 'Nowhere is there a larger variety of harps than in Africa' meddai *Grove's Dictionary of Music and Musicians* (t. 888), ond mae'n fwy tebygol mai ystyr symbolaidd sydd i'r *Affrig* yma.

Mae'n bosibl mai symbol am ehangder yw *Affrig* gan fod cymaint o'r cyfandir hwnnw yn ddiffeithwch eang.²⁰ Neu ai'r awgrym yw y byddai canu'r delyn, y *triphren*, i'r safon yr oedd Edward Sirc wedi ei feistrolï yn creu digon o gyfalaf i gadw holl dir Affrica? Yn sicr fe gysylltid

gwledydd Affrica â llawnder²¹ ac â masnach a chyfoeth: mae Tudur Aled, er enghraifft, yn sôn am *Treth Affric*.²²

Fe hoffwn feddwl mai cyfeiriad at siâp Affrica sydd yma. Tybed a wyddai Dafydd Trefor (neu efallai Hywel Rheinallt) fod Affrica ar siâp telyn? Bu'r unfed ganrif ar bymtheg yn garreg filltir yn hanes cartograffeg ar gyfrif y cynnydd aruthrol a fu mewn gwybodaeth, technoleg, ac anturiaeth masnachwyr. Cyn hynny, fodd bynnag, pwysid ar waith Claudius Ptolemy, y Groegwr a drigai yn Alecsandria c. O.C. 150, dyn a oedd yn gawr yn y maes: mae'n fwy na thebyg mai ei fapiau ef, os mapiau o gwbl, a fyddai'n arwain dychymyg dyfalu'r beirdd.²³

Wrth sôn am *driphren* tybed ai cyfeiriad at wneuthuriad telyn sydd yma, sef at dri phren gwahanol a ddefnyddid wrth ei llunio? Neu'n debychach, tybed ai cyfeiriad at siâp y delyn sydd yma, gan fod y delyn ganoloesol ar ffurf triong! Mae'n bosibl mai telyn *delta*, ar ddull siâp trionglog y bedwaredd lythyren yn yr wyddor Roeg, a ddisgrifir yma.

Mae'r *clawdd esgyrn* yn drosiad am dannau'r delyn, a'r bardd yn eu gweld fel rhes o esgyrn (yr asennau, efallai?) yn amgáu'r corff a'i organau fel y byddai clawdd yn amgylchynu tir ac yn gwarchod ei gynnwys. Posiblirwydd arall yw'r *clawdd* neu'r 'rhes' gwrachod, sef y pegiau arbennig ar siâp 'L' oedd yn cael eu defnyddio ar delyn unrhes; lleolid y pegiau hynny ar waelod y tant er mwyn angori'r tant wrth seinfwrdd y delyn. Roedd rhes o begiau hefyd ar frig pob tant er mwyn tynhau'r tannau i gael hanner nodyn yn lle nodyn llawn: efallai mai'r rheini a olygir yma.

Gwisgwyd y delyn hon â thannau coludd, *gut-strings*, yn hytrach nag â thannau o fetel neu o efydd. Sonnir am y cafn, sef seinfwrdd neu fol telyn ac yn enwedig ochrau a thu ôl y blwch sain, am y corf (sy'n cael ei ddefnyddio yma yn drosiadol am gorff y delyn), ac am y llorf, sef piler neu golofn y delyn (a chofier fod y llorf canoloesol yn hynod fwaog o'i gymharu â'r llorf modern).²⁴ Y god a ddaliai'r delyn, a'r gwregys oedd y belt neu'r strap ar y god a ddaliai'r delyn er mwyn medru ei chario'n hwylus. Mae'r *gown hir* yn gyfeiriad pellach at y god, ac ni roddir y delyn ynddi nes rhoi heibio ei chanu am y nos.

Offeryn tebyg ei sain i'r delyn hon oedd yr organ y sonnir amdani yma, offeryn lle yr oedd pwysedd gwynt, eto, yn creu sain cerddorol. Roedd yr

organ yn offeryn cerddorol cyffredin yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol. Mae sôn am organ yn Llanelwy 'tua thri chwarter canrif yn gynharach na'r un a welodd Dafydd ap Gwilym a Gruffudd Gryg ym Mangor, rywdro cyn dyrchafu'r deon Hywel ap Goronwy i fod yn esgob, 1370', meddai Dr Enid Roberts.²⁵

Y darlun olaf o'r delyn a welwn yn y cywydd hwn yw'r darlun ohoni'n ferch brydferth sy'n denu sylw'r dynion. Elfen ym mhersonoliad y delyn yw'r cyfeiriad hwn at ei *chernau* 'bochau', a'r darlun o'r telynor *chwyrn* 'cyflym, buan, chwim, bywiog' yn cosi ei gruddiau neu'n tynnu tannau'r delyn. Eisoes fe ddarluniwyd statws y delyn ym Môn, ddydd a ddaw, yn ferch faeth i Ddafydd ap Gwilym (ll. 33), a Dafydd yn famaeth iddi. Nid yw'r darlun o'r datgeiniad a'i ddull o ganu'r delyn yr un tyneraf, serch hynny, o gofio'r cyferbyniad â Brwydr Camlan.

Daw'r cywydd i ben drwy erfyn eto am drugaredd ac am rodd o law'r noddwr di-ail hwn. Mae Edward Sirc yn berchen ar ddwy neu dair telyn ar wedd yr un a drafodwyd yn y gerdd, ac erfynnir arno i gyflwyno'r drydedd delyn yn rhodd i Ddafydd ap Gwilym. Mae'r bardd eisoes wedi llefaru drwy enau'r sawl y mae'n begera ar ei ran: 'Yr wyf i, Dafydd ap Gwilym, yn dy enwi di [Edward Sirc, yn] dy nerth, yn noddwr pennaf imi' (llinellau 27–8). Does bosibl na wnaeth y gwron haelionus a hawddgar lai nag ildio i'w cais yn rasol.

Ond wnes i ddim digwydd sylwi ar gywydd diolch!

NODIADAU

- 1 Dyfynnir y rhestr (o gopi llawysgrif Peniarth 155, 94 o lyfr Gruffudd Hiraethog i Risiart Mostyn) yn D.J. Bowen, 'Graddedigion Eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8', *Llên Cymru*, ii (1952–3), 130.
- 2 Mae'r testunau gwreiddiol ychydig yn gymysglyd ond codwyd darnau ohonynt yn T. Gwynn Jones, 'Cerdd Dant', *Bwletin Bwrdd y Gwybodau Celtaidd*, i (1921–3), 139–56; cyflwynir yma fersiwn olygedig E. Roberts, 'Marwnadau Telynorion', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, xv (1966), 87. Am un o'r fersiynau anolygedig gw. Bethan E. Miles, 'Swyddogaeth a chelfyddyd y crythor' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1983), 543 sy'n gyfuniad o destun llawysgrif LIGC 17116B [= Gwysanau 28], 47 gydag ychwanegiadau o destun llawysgrif Peniarth 147, 187.
- 3 Mae'r testunau gwreiddiol ychydig yn gymysglyd ond codwyd darnau ohonynt yn T. Gwynn Jones, *art.cit.* 139–56; cyflwynir yma fersiwn olygedig E. Roberts,

- art.cit. 87–8. Am un o'r fersiynau anolygedig gw. Bethan E. Miles, *op.cit.* 543–4.
- 4 Ni restrwyd ei enw yn W.R.B. Robinson, 'Knighted Welsh Landowners, 1485–1558: a Provisional List', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, xiii (1987), 282–98.
 - 5 Gw. Huw Ceiriog Jones, *Gwaith Huw Ceiriog ac Edward Maelor* (Caerdydd, 1990), xxiii, sy'n rhoi ei ddyddiadau ychydig yn gynharach na *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), 168 sy'n cynnig *fl. c.* 1580–1620.
 - 6 Arno ef gw. Bethan Miles, "'Pwt ar fys" neu "Ffarwél y Crythor"', *Canu Gwerin*, xiii (1990), 35–7.
 - 7 Dyfynnir yr ach yn Huw Ceiriog Jones, *op.cit.* xx.
 - 8 Gw. BL Add 14875 [= RWM 30], 144v.
 - 9 Gw. llawysgrif Peniarth 188, 256, wedi ei ddyfynnu yn Huw Ceiriog Jones, *op.cit.* xx.
 - 10 Am ymdriniaeth ar y gainc 'Gosteg y Llwyteg' gw. Peter Crossley-Holland, *The Composers in the Robert ap Huw Manuscript: The Evidence for Identity, Dating and Locality* (Bangor, 1998), 13–17; yn yr un gyfrol (t. 79) fe awgrymir mai gŵr o'r Treuddyn yn sir y Fflint oedd y Llwyteg hwnnw, a'i fod yn ei flodau c. 1450–70.
 - 11 Ar *cwlwm* a'r *pedair colofn* gw. dadansoddiad Dr Enid Roberts o dermau cerdd dant yn *art.cit.* 98, lle dywed fod *cwlwm* yn cynnwys 24 o geinciau telyn, a bod colofn yn cynnwys deg *cwlwm* o geinciau, sef 240 o geinciau i gyd. Hefyd ar 'bedair colofn cerdd delyn' gw. Bethan E. Miles, 'Swyddogaeth a chelfyddyd y crythor' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1983), 679. Term technegol ym myd cerddoriaeth i'r delyn yw *caniad* yn ogystal, ac roedd gwybod 'ugain o glymau (gw. ll. 14), ugain o ganiadau (gw. ll. 15)' ymysg y gofynion ar gyfer gradd disgybl pencerddaidd, gw. E. Roberts, *art.cit.* 87. Mae'n debyg mai casgliad o rhwng 13 a 17 o geinciau yw *caniad*, gw. *ib.* 98.
 - 12 Enghraifft arall yw Tudur Aled: *Pencerdd y ddwygerdd agos* meddai Lewys Daron amdano mewn marwnad iddo, gw. *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994), 79 (cerdd 25, llinell 47).
 - 13 Gw. E. Roberts, *art.cit.* 86.
 - 14 Fe'u gwelir yn Huw Ceiriog Jones, 'Testun beirniadol o farddoniaeth Huw Ceiriog, Ieuan Llafar ac Edward Maelor' (M.A. Cymru [Bangor], 1984), Atodiad.
 - 15 Gw. G. Thomas, *Eisteddfodau Caerwys* (Caerdydd, 1968), 44.
 - 16 Pwnc tebyg oedd hanfod yr ymryson rhwng Siôn Cent a Rhys Goch Eryri, sef fod dau fath o Awen farddol ar waith yn y byd, yr Awen sanctaidd a'r Awen gelwyddog, gw. *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. H. Lewis, T. Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937), 181–6 (cerddi LX a LXI).
 - 17 'Daw "byrdwn" o *bourdon* neu *burden*, yn wreiddiol y sain isaf un gan offerynnau cerdd', gw. E. Roberts, 'Llys Ieuan, Esgob Llanelwy', *Trafodion Cymdeirihas Hanes Sir Ddinbych*, xxiii (1974), 92. Ymhellach, gw. Bethan Miles & David R.A. Evans,

- 'Rhai Termau Cerddoriaeth Eglwysig yng ngwaith y Cywyddwyr', *Welsh Music*, viii/9 (1986–9), 28–42 (yn enwedig tt. 30–1); R.E. Roberts, 'Welsh Music in the Tudor Period', *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1925–6, 1–24 (yn enwedig tt. 10–11).
- 18 Sef llawysgrif BL Add 14905, 57. Am y gainc yn llawn gw. ailargraffiad o gyfrol Edward Jones 'Bardd y Brenin' a gyhoeddwyd gyntaf yn 1802, *The Bardic Museum* (ailargraffiad; Llundain, 1986), 70. Diolch i Phyllis Kinney am y ddau gyfeiriad canlynol lle ceir copïau o'r alaw: Cwrt Mawr (cerddoriaeth) 21, f. 16v; Cwrt Mawr (cerddoriaeth) 30 (rhan i), f. 73v. Casglwyd papurau symposiwm 'Astudiaethau Robert ap Huw' yn *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, iii (1999); gw. hefyd sylwadau A. Dolmetsch, 'An Analysis of the Harmonies and Forms of the Bardic Music', *The Consort*, iii (1934), 7–20.
 - 19 Ymhellach ar hynny gw. Martin van Schaik, *The Harp in the Middle Ages: the symbolism of a musical instrument* (Amsterdam-Atlanta, 1992).
 - 20 Cymharer y llinellau a ganlyn: *Y cae ehelaeth cylch tŵr Cyhelyn / ydiw y wen Affrig rhwng naw dyffryn*, gw. Gwaith Lewys Glyn Cothi, gol. D. Johnston (Caerdydd, 1994), 98 (cerdd 40, llinellau 21–2).
 - 21 Gw., e.e., *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926), 22 (cerdd IV, llinellau 77–8): *Bron Salbri'n llenwi llofnwin—gwŷdd Affrig / I ddyffryn Llanrhychwin*.
 - 22 *Ib.* 192 (cerdd XLVI, llinell 85).
 - 23 Ymhellach ar hanes mapio cyfandir Affrica, gw. R.V. Tooley, *The Printed Maps of the Continent of Africa and Regional Maps South of the Tropic of Cancer (1500–1900)*, (London, 1966).
 - 24 Am restr (ac eglurhad) o brif dermau'r Gymraeg ar gyfer gwahanol rannau'r delyn gw. A. Rosser, *Telyn a Thelynor: Hanes y Delyn yng Nghymru 1700–1900* (Caerdydd, 1981), 15–16.
 - 25 Gw. E. Roberts, 'Llys Ieuan, Esgob Llanelwy', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, xxiii (1974), 92, troednodyn 41.



Huw Williams, Bangor

TEYRNGED I HUW WILLIAMS

Meredydd Evans

Monwysyn hyd at fêr ei esgyrn oedd Huw. Wedi ei eni ar 8 Mai 1922 ym Mryngwran, yn fab i Hugh a Mary Emma Williams, treuliodd y rhan helaethaf o'i oes ar y tir mawr, ond Môn a'i lluniodd ac yn ei daear hi y rhoed ei gorff i orwedd ar 1 Awst 2002.

Bob cam o'r daith bu'n ffyddlon i werthoedd yr aelwyd a'r gymdeithas y magwyd ef arni ac ynddi, ac ni flinai ar ganmol magwraeth 'Goleufryn' ac ardal Bryn-du, lle symudodd y teulu i fyw yn 1923. Bu'n ddisgybl diwyd a bodlon yn Ysgol Gynradd Pencarnisiog, ond surodd wrth Ysgol Sir Caergybi oherwydd ei hawyrgylch Seisnigaidd. Cyfnod na fynnai sôn amdano oedd 1942–47, y blynyddoedd a dreuliodd yn y fyddin: yn heddychwr wrth reddf a thuedd, gwnaeth y cyfnod hwnnw ef yn heddychwr o argyhoeddiad yn ogystal.

Treuliodd 1948–49 yn fyfyrwr yng Ngholeg Hyfforddi Cartrefle, Wrecsam, ac o hynny hyd ddiwedd 1967 bu'n athro ymroddedig yn rhai o ysgolion Sir Fflint, gyda'r blynyddoedd 1954–67 yn Ysgol Dinas Basing, Treffynnon, ymysg y mwyaf hapus a ffrwythlon yn ei yrfa. Ar yr un pryd, y creadur cymdeithasol ag ydoedd, gweithiai'n egniïol gyda chymdeithasau Cymraeg, darlithiai i'w haelodau, a beirniadau yn eu heisteddfodau. Dechreuodd hefyd gyhoeddi ysgrifau ar amryfal weddau hanes cerdd a llên, gan osod sylfeini'r amlygrwydd a ddaeth iddo mewn dim o dro, yn enwedig fel hanesydd canu cynulleidfaoel a phoblogaidd ei genedl.

Priododd ag Olwen yn 1966 ac ni bu dau ddedwyddach na nhw, na mwy croesawgar ar aelwyd. Roedd yno seiadu melys yn ddieithriad.

Erbyn Ionawr 1968 roedd Huw yn hunanliwtiwr, ac ymhén amser daeth yn llais ac wyneb cyfarwydd ar radio a theledu. Symudodd y ddau i fyw i Lanfaelog yn 1971, a dyna pryd y deuthum i ac yntau i gysylltiad gwirioneddol glôs â'n gilydd – mater o adnabod o hyd braich oedd hi cyn hynny. Yn ystod gaeaf 1971–72 digwyddwn fod yn cynhyrchu cyfres o raglenni teledu ar ganeuon poblogaidd y Cymry dan y pennawd 'Canu'r

Bobol' ac yr oeddwn wedi troi at Huw i fod yn aelod o'r panel oedd yn ymdrin â chefnidir y gwahanol ganeuon: y ddau arall oedd D. Roy Saer ac Amy Parry-Williams, a minnau'n gadeirydd a chyflwynydd. Cawsom amser gwych yng nghwmni'n gilydd, ac o'r adeg honno ymlaen cadwodd Huw a minnau gysylltiad cyson â'n gilydd.

Yn 1972 ganwyd Maredudd ap Huw (does ond gobeithio na fydd cael ei enwi ar f'ôl yn achos tramgwydd iddo), a'r flwyddyn ganlynol symudodd y teulu i fyw i Fangor. Yno, dros gyfnod o bron i ddeng mlynedd ar hugain, daliodd Huw i gynhyrchu llu mawr o ysgrifau a nifer o lyfrau (cofier ei fod wedi cyhoeddi *Tonau a'u Hawduron* yn 1967 a *Rhagor am Donau a'u Hawduron* yn 1969) hyd nes i'r blynyddoedd olaf ddwyn cystudd hir i'w ran. Trwy'r cyfan bu'n ddygn a dewr.

Dyna droeon yr yrfa, yn gyffredinol. Gadawodd etifeddiaeth deg o'i ôl a llafuriodd i bwrpas. Sylwaf ar dair gwedd ar ei gynnyrch.

CANU CYNULLEIDFAOL CYMRU

Tua'r flwyddyn 1950 dechreuodd ar y gwaith o gasglu gwybodaeth am ein canu cynulleidfaol, gan bori yn y cylchgronau a'r ychydig lyfrau cerddorol Cymraeg oedd ar gael ar y pryd. Yno y daeth ar draws gyfraniadau rhai megis Ieuan Gwyllt, M.O. Jones, D. Emlyn Evans, Yllyr Eryri, David Lewis, ac ati. Ond cyfraniadau tameidiol oedd eu heiddo nhw ar y gorau, a gwelai fod gwaith llawer trylwyrach yn galw am gael ei gyflawni. Dechreuodd gasglu copïau o ddetholiadau emyn-donau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ymddengys iddo hefyd ddechrau darllen yn bur eang lyfrau gan haneswyr ar emynyddiaeth Lloegr, gyda rhai o'r rheini yn ymdrin rhywfaint ag ambell emyn-dôn Gymreig. Eithr yr oedd dau Gymro yn yr ugeinfed ganrif a barchai'n fawr gyda golwg ar astudio canu crefyddol Cymru, dau a ystyriai ef yn 'fwy gwyddonol' eu dulliau a'u bryd na'u rhagflaenwyr, sef John Lloyd Williams ac, yn enwedig, R.D. Griffith.

Rhwng 1930 a 1939 golygai'r cyntaf *Y Cerddor* ac ef a wahoddodd yr ail i gyhoeddi cyfres o ysgrifau ar hanes canu cynulleidfaol Cymru yn rhifynnau misol y cylchgrawn yn y cyfnod 1931–35. Daeth yn amlwg ar unwaith i ddarllenwyr y cyfnod mai dyma'r tro cyntaf i Gymro Cymraeg fwrw golwg ar ganu crefyddol y genedl yn ei gyfanrwydd a'i osod ar yr

un pryd yng nghefnidir Ewropeaidd canu o'r fath. Ymgyfarwyddo â *Hanes Canu Cynulleidfaol Cymru* (1948), talfyriad o erthyglau R.D. Griffith yn *Y Cerddor*, a sbardunodd Huw yn bennaf i weithio ymhellach yn yr un maes.

Y ffordd a gymerodd ef oedd canoli sylw ar nifer neilltuol o donau cynulleidfaol, tua chwe chant ohonynt i gyd, gyda'r bwriad o geisio datgelu eu hynt o'u tarddiad i'r ffurfiau sydd arnynt yn *Llyfr Emynau a Thonau y Methodistaidd Calфинаidd a Wesleiaidd* (1927). Y canlyniad fu dwy gyfrol mor arbennig bob tamaid â chyfrol gampus R.D. Griffith. Nid oes eisiau ond bwrw golwg dros ddyrnaid o'r nodiadau cefndir i werthfawrogi'r graen sydd ar y gwaith, cyndynrwydd yr ymchwilio, ehangder y darllen perthnasol, y cloriannu gofalus, y casglu pwylllog, a'r damcaniaethu cyfrifol pan yw'r dystiolaeth yn brin. Blasus hefyd yw'r bywgraffiadau byr o rai o'r cyfansoddwyr a'r prydyddion llai adnabyddus.

Canu'r Bobol

Cyfeirlyfr yw *Canu'r Bobol* (1978) ac y mae hwn yntau yr un mor arbennig â'r gwaith blaenorol, yn drysor i gynhyrchwyr a chyflwynwyr rhaglenni radio ac ymchwilwyr hanes cerddoriaeth boblogaidd. Gwir fod Huw wedi bod wrthi'n casglu ffeithiau am ganu'r eisteddfod, y cyngerdd, y cyfarfodydd diwylliannol, yr aelwyd, y llofft stabal a'r dafarn, dros lawer blwyddyn cyn i'r ddau ohonom gydweithio yn ystod 1971–72, ond bu'r rhaglen deledu a roes ei henw i'w gyfrol yn rhywfaint o sbardun iddo fynnu cyhoeddi peth o ffrwyth ei lafur yn ddiweddarach.

Coffa da amdano fel perfformiwr. Arferwn anfon manylion rhaglen ymlaen llaw i aelodau'r panel, gan ofyn i bob un yn ei dro arwain gyda sylwadau ar bob cân unigol a neilltuo hyn a hyn o funudau ar gyfer hynny. Gallwn ddibynnu'n llwyr am baratoad trylwyr o du y tri ohonynt, ond yn achos Huw yn enwedig gwyddwn y byddai'n dod â llond trol o nodiadau hefo fo yn ddi-feth, digon i gynnal rhaglen gyfan bron iawn! Serch hynny, erbyn mynd i'r stiwdio byddai ei lafar yn glir, ei gynnwys yn gryno, ei Gymraeg yn rhywiog, a'i gof am ddyddiadau yn ddi-ffael.

Am ei fedr i grynhoi, darllener ei Ragymadrodd i'r gyfrol. O fewn cyfyngiadau gofod mae'r cyflwyniad hwnnw gystal crynhoad o hynt

canu poblogaidd Cymraeg hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif ag a ellid ei ddisgwyl o law unrhyw hanesydd. Ac unwaith yn rhagor dengys y nodiadau pa mor gyfarwydd yr oedd â'i faes, maint y drafferth a gymerodd i geisio dyddio caneuon a chyfansoddiadau diddyddiad, cyndynrwydd a thrylwyrdd ei ymchwil, a'i hoffter o ganeuon ei bobl ei hun a'u dulliau o'u difyrru eu hunain. Mor graff yw'n aml hefyd wrth gymharu rhai o'r alawon, ynghyd â nodi perthynas rhyngddynt.

YSGRIFAU AC ERTHYGLAU

Lluniodd rai cannoedd o ysgrifau ac erthyglau a cheir detholiad teilwng o'r rheini yn *Taro Tant* (1994). Prin fod cylchgrawn na newyddiadur nas cyfrannodd iddo a dengys yr enghreifftiau hyn cystal ysgrifennwr ydoedd; gŵr a wyddai beth oedd am ei ddweud, ac yn llwyddo i'w ddweud yn eglur mewn iaith lân, yn ddiffwdan ei arddull, ac yn eang ei ddiwylliant. Cymwynas â'i bobl fyddai cyhoeddi detholiadau pellach o'r llu ysgrifau ac erthyglau hyn.

Fe gofiwn ni, ddarllenwyr y cylchgrawn hwn, yn enwedig am ei gyfraniadau goleuedig a difyr iddo yn ystod y blynyddoedd diwethaf, pump ohonynt yn benodol ar ei gyfer, sef:

'Rhagor am ddwy alaw' (21/1998)

'Golwg ar hen alaw' (22/1999)

'Aria di camera: rhai sylwadau' (22/1999)

'Rhagor am Fardd Alaw a'i alawon mewn casgliad unigryw' (23/2000)

'Hen Alaw mewn diwyg newydd' (24/2001)

'Pyncio cerdd yn Iwerddon: cipdrem ar wasanaeth Thomas Moore' (25/2002)

Ar y cyd â'i fab, Dr Maredudd ap Huw, y lluniwyd 'T. Hamer Jones, y cyntaf o'n llyfryddwyr cerdd' (25/2002), ac atgynrychiadau o gylchgronau eraill yw'r ddwy sy'n weddill, sef 'Llinach Joanna' (14/1991) ac 'Ar drywydd carol' (10/1987).

Cafodd fywyd llawn a ffrwythlon. Bu'n weithiwr diflino, parod ei gymwynas, yn gwmniwr diddan a'i chwerthiniad iachus yn codi calon dyn. Bu'n gariadus ofalus o'i deulu, yn deyrngar i'w genedl, yn ffyddlon i'w gyfeillion, ac yn driw iddo'i hun.

LINDA HEALY

ÔL EI DROED SCD2385

Ynghanol ei phrysurddeb fel mam, gwraig fferm a Gohebydd y Canolbarth ar Radio Cymru, dychwelodd Linda Healy i Sain i recordio albwm unigol newydd, sef *Ôl ei droed*.

Mae amrywiaeth o'r gwerinol i'r cyfoes yma, a llais clir Linda cystal ag erioed. Aeth naw mlynedd heibio ers cyhoeddi ei CD olaf, a 15 mlynedd ers i Linda a Tudur Morgan drafod gyrfa Linda fel cantores unigol am y tro cyntaf. Tudur yw Cynhyrchydd yr albwm, ac mae ganddo dair o ganeuon newydd arno; mae cyfraniadau hefyd gan Tudur Huws Jones, Frank Hennessy, Myrddin ap Dafydd, Alun Sbardun Huws, Barry Jones, Glyn Roberts ac Elfed Lewys.

Mae caneuon dwys a llawn teimlad yma, yn enwedig cân deyrnged Linda i'w thad a fu farw bedair blynedd yn ôl. Aeth Linda ati i sgwennu *Ôl dy droed* wedi iddi freuddwydio am ei thad, sef David William Griffiths ('Bill' Griffiths i'w gydnabod), yn y Sioe Frenhinol. Mae yma hefyd alaw hiraethus gan y diweddar Elfed Lewys, a'r geiriau gan Myrddin ap Dafydd. Bu Elfed yn ddylanwad mawr ar Linda tra bu'n Weinidog yn ardal Llanfyllin a Meifod. Cyfnither Linda, sef yr artist Kath Gittins o Oriel Tŷ Cornel, Meifod, sydd wedi paratoi clawr y cryno-ddisg. Peintiad dyfrlliw o olion traed mewn eira sydd yma, sy'n cyfleu hiraeth Linda am ei thad.

Mae recordiadau eraill Linda Healy yn cynnwys casét *Amser* (1988) a CD a chasét *Plant y Môr* (1993). Mae gan Plethyn naw casgliad, sef *Blas y Pridd*, *Golau Tan Gwmwl*, *Rhown Garreg ar Garreg*, *Teulu'r Tir*, *Caneuon Gwerin i Blant*, *Byw a Bod*, *Drws Agored*, *Blas y Pridd/Golau Tan Gwmwl* ar CD a *Seidir Ddoe*. Rhyddheir *Goreuon Plethyn* yn Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau, 2003.

Bydd Linda, Plethyn ac Arfon Gwilym yn perfformio yn y Cann Office, Llangadfan ar Nos Fercher, Awst 6, lle bydd Arfon yntau'n rhyddhau casgliad newydd o ganeuon gwerinol ar CD. Welwn ni chi yno!



2330155

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.
